**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

# CYNLLUNIAU DATBLYGU UNEDOL CYMRU

**[i ddisodli Canllawiau Cynllunio (Cymru): Cynlluniau Datblygu Unedol, Swyddfa Gymreig, 1996]**

# CYNLLUNIAU DATBLYGU UNEDOL CYMRU


| | | Rhif Paragraff |
|---|---|---|
| **1. CYNLLUNIAU DATBLYGU UNEDOL (UDP) YN Y SYSTEM GYNLLUNIO** | - Canllawiau Cynllunio Cenedlaethol | 1.1 |
| | - Y Gofyniad i Baratoi Cynllun | 1.2 |
| | - Cydweithio | 1.3 |
| | - Cynlluniau - Fframwaith Polisi Defnydd Tir | 1.12 |
| | - Cynlluniau UDP a Strategaethau Cymunedol | 1.16 |
| | - Cynlluniau UDP a Chynlluniau Trafnidiaeth Lleol | 1.17 |
| | - Parhad Cynllun | 1.20 |
| | - Dyddiad Gweithredu | 1.21 |
| | - Tynnu Cynllun yn Ôl | 1.22 |
| | - Malltod ac Osgoi Malltod | 1.23 |
| **2. FFURF Y CYNLLUN** | - Cynlluniau ar y Cyd | 2.1 |
| | - Parciau Cenedlaethol | 2.4 |
| | - Pwyllgorau Ardal | 2.6 |
| | - Teitl y Cynllun | 2.7 |
| | - Polisïau, Cynigion a Lefel Manylder | 2.8 |
| | - Canllawiau Cynllunio Atodol | 2.12 |
| | - Gwerthuso Cynaliadwyedd Cynlluniau | 2.17 |
| | - Argaeledd Dogfennau | 2.23 |
| | - Fersiynau 'Poblogaidd' | 2.25 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | - Defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg | 2.26 |
| **3.** | **CYNNWYS Y CYNLLUN** | - Egwyddorion Cyffredinol | 3.1 |
| | | - Yr UDP – Rhan I a Rhan II | 3.5 |
| | | - Rhan I | 3.6 |
| | | - Rhan II (gan gynnwys y Map Cynigion) | 3.13 |
| | | - Adnoddau | 3.23 |
| **4.** | **GWEITHDREFNAU'R CYNLLUN A GWELLA'R BROSES O BARATOI CYNLLUNIAU** | - Gwella'r Broses Reoli, a Phennu Amserlen ar gyfer Mabwysiadu Cynlluniau | 4.1 |
| | | - Arolygon a Gwybodaeth | 4.5 |
| | | - Ymgynghori, Negodi a Chyfranogiad y Cyhoedd (Cyn ac Wedi Adneuo'r cynllun) | 4.8 |
| | | - Ymchwiliad Lleol neu Wrandawiad Arall | 4.15 |
| | | - Adroddiad yr Arolygydd | 4.16 |
| | | - Gweithdrefnau Ôl-ymchwiliad a Diwygiadau | 4.17 |
| | | - Mabwysiadu | 4.21 |
| | | - Mentro, Adolygu ac Adolygu ac Amnewid Cynlluniau | 4.22 |
| | | - Ymarfer Gorau | 4.32 |
| **5.** | **RHAN Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL YM MHROSES Y CYNLLUN, A HERIO YN YR UCHEL LYS** | - Rhan y Cynulliad Cenedlaethol | 5.1 |
| | | - Herio yn yr Uchel Lys | 5.2 |
| **6.** | **DILEU CYNGOR BLAENOROL** | | 6.1 |

**ATODIADAU**


| | |
|---|---|
| **ATODIAD A** | **Trefniadau Trosiannol** |
| **ATODIAD B** | **Cyngoredigion ar gyfer** <br> **Cynlluniau Datblygu Unedol** |
| **ATODIAD C** | **Canllawiau Pellach ar Weithdrefnau ac Ymarfer Gorau** |


## 1. CYNLLUNIAU DATBLYGU UNEDOL YN Y SYSTEM GYNLLUNIO

### Canllawiau Cynllunio Cenedlaethol

1.1 Mae'r ddogfen hon yn cynnwys cyngor y Cynulliad Cenedlaethol ar baratoi cynlluniau datblygu unedol (UDP) yng Nghymru. Nodir y polisïau cynllunio defnyddio tir sy'n gymwys i Gymru yn *Canllawiau Cynllunio (Cymru): Diwygiad Cyntaf y Polisi Cynllunio* (a fydd yn cael ei ddisodli gan Bolisi Cynllunio Cymru pan gaiff hwnnw ei gyhoeddi) ac yn Polisi Cynllunio Mwynau Cymru, a ategir gan Nodiadau Cyngor Technegol a Chylchlythyrau (sy'n rhoi cyngor gweithdrefnol). Ar hyn o bryd, mae'r Cynulliad wrthi'n paratoi Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol ar gyfer Cymru. Dylai'r awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru ddefnyddio'r pecyn hwn o ganllawiau cynllunio cenedlaethol i baratoi eu cynlluniau UDP. Gan mai'r Cynulliad sy'n gyfrifol am gynllunio defnydd tir yng Nghymru, dylai'r canllawiau hyn fod yn drech nag unrhyw ganllawiau blaenorol ar gynlluniau UDP yng Nghymru neu'r rhai a gyhoeddwyd gan Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau.

### Y Gofyniad i Baratoi Cynllun

1.2 Mae Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, fel y'i newidiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod yng Nghymru baratoi cynllun UDP ar gyfer ei ardal. Yr UDP fydd y cynllun datblygu ar gyfer pob cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol a phob Parc Cenedlaethol, gan ddisodli'r cynllun strwythur, y cynllun lleol neu unrhyw gynllun datblygu presennol arall. **Dylid paratoi'r cynlluniau UDP cyn gynted ag y bo modd; dylid rhoi blaenoriaeth uchel i hynny'n benodol mewn ardaloedd lle nad yw'r cynllun datblygu mabwysiedig wedi ei lawn diweddaru.** Nodi. Pennir y gweithdrefnau ar gyfer paratoi cynlluniau UDP yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu) 1991 (fel y'u newidiwyd).

### Cydweithio

1.3 Mae angen i awdurdodau ymgynghori a chydweithio âi gilydd a chyda chyrff eraill fel sy'n briodol, i ystyried materion strategol sy'n effeithio ar ragor nag un awdurdod. Y ffordd orau i ddwyn gwaith o'r fath ymlaen yw gan grwpiau priodol o awdurdodau, a dylai pob awdurdod yng Nghymru ddod yn rhan o grwp neu

grwpiau o’r fath. Bydd y broses hon, a'r casgliadau cynllunio strategol a gynhyrchir gan y grwpiau, yn rhan o gyd-destun y cynlluniau UDP ac o'r mewnbwn iddynt, yn enwedig strategaethau a pholisïau Rhan I.

1.4 Mae'r materion o natur strategol y dylai'r grwpiau hyn ymdrin â hwy yn cynnwys:

- cyfleoedd economaidd, gan gynnwys twristiaeth a masnach, a lleoliad cyffredinol safleoedd cyflogi strategol;
- newid poblogaeth a ffurfio cartrefi;
- mesurau bras o'r gofyn am dai a'u dosbarthiad;
- cysylltiadau trafnidiaeth a hygyrchedd;
- newidiadau yng nghefn gwlad;
- ystyriaethau eang yngln â diogelu'r amgylchedd, ac mewn ardaloedd addas yr angen posibl am Leiniau Glas;
- adnoddau mwynol a chyflenwi mwynau;
- strategaethau i gael gwared â gwastraff;
- adnoddau a chyflenwadau ynni;
- materion arfordirol;
- materion cymdeithasol, diwylliannol a threftadaeth, gan gynnwys lles yr iaith Gymraeg.

1.5 Gall materion eraill fod yn briodol mewn rhai ardaloedd; mater i'w ystyried gan y grwpiau yw dewis a chydbwyso'r materion. Wrth ymdrin â'r materion hyn, dylid ystyried hefyd perthynas pob un â'i gilydd, yn enwedig y berthynas rhwng maint a lleoliad datblygiadau newydd, eu hygyrchedd a'r amgylchedd.

1.6 Dylai'r grwpiau ystyried y canllawiau polisi cynllunio cenedlaethol yn ogystal â pholisïau, rhaglenni a chanllawiau eraill gan y Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys y Cynllun Datblygu Cynaliadwy, y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol a rhaglenni ar gyfer yr economi, yr amgylchedd a thrafnidiaeth. Pan fyddant wedi’u cwblhau, bydd y Fframwaith Trafnidiaeth Cenedlaethol a’r Fframwaith Cynllunio Gofodol Cenedlaethol hefyd yn rhoi cyd-destun pwysig i’w gwaith. Dylent hefyd ystyried a rhyngweithio gyda gwaith trawsffiniol arall, er enghraifft mewn perthynas â thrafnidiaeth integredig, datblygu economaidd, hyfforddi, datblygu cymunedol a'r amgylchedd.

1.7 Dylai pob grp ddilyn proses strwythuredig a thryloyw, fel bod ffynhonnell pob cyfraniad a sail y casgliadau yn eglur. Mae ystod eang o sefydliadau mewn sefyllfa i gyfrannu gwybodaeth a barn ddefnyddiol. Dylid ymgynghori ag Is-adran Gynllunio'r Cynulliad Cenedlaethol. Pan fo’n fuddiol i wneud hynny neu pan yr effeithir ar eu buddiannau’n sylweddol, dylai’r grwpiau hefyd ymgynghori â’r cyrff eraill hynny yng Nghymru a restrir yn Atodiad B. Dylid hefyd ymgynghori â’r cyrff sy'n gyfrifol am baratoi canllawiau cynllunio rhanbarthol, mewn rhanbarthau cyfagos yn Lloegr. Yngln â'r olaf, dylid canolbwyntio'n gaeth ar faterion penodol sy'n galw am y fath ymgynghori. Byddai'n fuddiol i aelodau etholedig yn ogystal â swyddogion gymryd rhan yn y broses.

1.8 Cyn datgan ei gasgliadau, dylai pob grp benderfynu ar natur y dogfennau sydd eu hangen ar gyfer ymgynghori. Dylai’r grwp ystyried a fyddai o fudd iddo gynnal trafodaeth neu archwiliad fwy ffurfiol a chyhoeddus ar y materion dan sylw a'r casgliadau wrth iddynt grisialu. Ychwanegir at werth y broses ac unrhyw adroddiad terfynol trwy gynnal gwerthusiad cynaliadwyedd, gan roi sylw i ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Hwyrach y gall grwpiau ddod o hyd i gyngor defnyddiol yn *Planning for*

*Sustainable Development: Towards Better Practice*, DETR, 1998, neu *Proposals for a Good Practice Guide on Sustainability Appraisal of Regional Planning Guidance* (DETR, 1999)

1.9 Dylai pob grp gyflwyno casgliadau'i waith mewn adroddiad a fyddai'n nodi'r wybodaeth strategol a gasglwyd, y casgliadau strategol a gyrhaeddwyd ac unrhyw oblygiadau gofodol. Dylai'r adroddiad fod mewn ffurf y gellir ei ddeall yn eang, ac y gellir ei ddefnyddio'n rhwydd mewn UDPs. Dylai'r grp neu'r awdurdodau aelodol sicrhau bod y cyhoedd a buddianwyr eraill yn gwybod am eu casgliadau ac am eu sail. Dylai pob grp geisio cytuno ar set o gasgliadau strategol. Os ceir gwahaniaethau barn sylweddol, dylai'r adroddiad nodi ac esbonio'r gwahaniaeth safbwynt. Gyda'r adroddiad dylid atodi crynodeb o'r gwerthusiad cynaliadwyedd, sy'n nodi goblygiadau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol y strategaethau a gytunwyd. Hwyrach y bydd awdurdodau unigol yn dymuno cymeradwyo'r adroddiad fel datganiad o'r strategaeth sy'n goleuo'u cynlluniau UDP.

1.10 Gall yr adroddiad, neu unrhyw ran o'i gynnwys, fod yn ystyriaeth berthnasol i ddibenion rheoli datblygu (heblaw os ydyw wedi ei ddisodli gan ddarpariaethau UDP a fabwysiadwyd). Gellir ei ddefnyddio i gefnogi ceisiadau am grantiau neu raglenni ariannol ac i asesu cynigion o'r fath.

1.11 Dylai'r awdurdodau ddyrannu adnoddau digonol i'r broses o gydweithredu er mwyn sicrhau ei bod yn effeithiol. Mae'n debygol y gwelir gwerth yr adnoddau hyn yn fuan, ac y byddant yn arbed adnoddau yn y pen draw, trwy gyflymu'r broses o baratoi'r cynllun UDP. Fodd bynnag, er y dylai cynlluniau UDP sydd eisoes yn cael eu paratoi roi sylw i waith cyfredol ac arfaethedig y grwpiau, ni ddylid gohirio paratoi cynllun UDP oherwydd y gwaith hwnnw. Bydd gwaith y grwpiau mewn perthynas â materion strategol, yn ogystal â'r gwaith o baratoi ac adolygu'r cynlluniau UDP, yn brosesau parhaus.

**Cynlluniau – Fframwaith Polisi Defnydd Tir**

1.12 Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi ymrwymo'n llwyr i'r system sydd â'r cynllun yn ganolbwynt iddi, y rhoddir grym statudol iddi gan adran 54A, Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ('Deddf 1990'). Mae Adran 54A yn ei gwneud yn ofynnol i wneud penderfyniadau cynllunio yn unol â'r cynllun datblygu, onid oes ystyriaethau o bwys sy'n arwyddo'n wahanol. Mae hyn darparu fframwaith ar gyfer penderfyniadau rhesymegol a chyson. Mae hefyd yn darparu system sy'n galluogi'r gymuned gyfan – busnesau, cyrff eraill ac aelodau'r cyhoedd – i gyfrannu'n llawn at lunio polisïau cynllunio i'w hardaloedd trwy gyfranogiad cyhoeddus.

1.13 Mae cynlluniau datblygu yn cynnig fframwaith polisi, y gellir darparu o'i fewn ar gyfer anghenion datblygu a chadwraeth. Dylent fod yn ddatganiad eglur a chryno o bolisïau a chynigion yr awdurdod ar gyfer datblygu neu ddefnyddio tir rywfodd arall, gan esbonio a chyfiawnhau gyda rhesymau, pa sylw a roddwyd gan yr awdurdod i faterion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, gan gynnwys anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg, ac i ystyriaethau perthnasol eraill.

1.14 Ni all system sydd â'r cynllun yn ganolbwynt iddi lwyddo nac ennyn hyder y cyhoedd, oni fydd y cynlluniau wedi eu mabwysiadu mewn da bryd a'u diweddaru yn rheolaidd. Cynhwysir canllawiau ar y pwysigrwydd y dylid ei dadogi ar bolisïau mewn cynlluniau newydd yn *Canllawiau Cynllunio (Cymru): Diwygiad Cyntaf y Polisi Cynllunio*. Diwygir y canllawiau UDP o bryd i'w gilydd, i gynorthwyo'r broses o

baratoi a mabwysiadu cynlluniau. Mae'n hanfodol bod awdurdodau yn rhoi blaenoriaeth briodol i wella ac adolygu cynlluniau a gwella'u rheolaeth prosiect wrth ymgymryd â'r broses o baratoi cynlluniau. Mae digonedd o le hefyd i'r awdurdodau ddysgu oddi wrth brofiad eraill. Mae'r ddogfen hon yn cyfeirio at y ffynonellau sy'n cynnig cyngor ar yr ymarfer gorau cydnabyddedig; gweler hefyd Atodiad C.

1.15 Yn ychwanegol at y cynlluniau UDP, mae awdurdodau lleol yn paratoi nifer o gynlluniau, polisïau, rhaglenni a strategaethau rheoli eraill. Ym mhlith rhaglenni o'r fath mae'r Strategaeth Gymuned, y Cynllun Trafnidiaeth Lleol, y Strategaeth Leol Agenda 21, Strategaeth a Chynllun Gweithredol Tai, y Strategaeth Ddatblygu Economaidd, y Cynllun Gweithredu Bio-amrywiaeth Lleol, Cynlluniau Rheoli Ansawdd Aer Lleol, Cynlluniau Ailgylchu, y Cynllun Amcan Un, y Cynllun Rheoli Parciau Cenedlaethol, Strategaeth y Ddeddf Trosedd ac Anrhefn, a strategaethau rheoli cefn gwlad a'r arfordir. Dylai'r cynllun UDP gynnwys unrhyw gynigion a thargedau o blith y rhain sydd â goblygiadau uniongyrchol ar gyfer defnydd tir. Mae angen i elfennau gofodol y cynlluniau a'r strategaethau a baratoir gan awdurdodau lleol ac asiantaethau cyhoeddus eraill gydymffurfio â'r cynllun UDP, a bod yn gytûn ag ef.

**Cynlluniau UDP a Strategaethau Cymunedol**

1.16 Mae canllawiau ar baratoi strategaethau cymunedol wrthi'n cael eu cynhyrchu gan y Cynulliad Cenedlaethol. Dylai strategaethau cymunedol ddarparu'r fframwaith strategol cyffredinol ar gyfer yr holl gynlluniau a strategaethau eraill ar gyfer ardal yr awdurdod lleol. Dylai cynlluniau UDP a strategaethau cymunedol fod yn ategol i'w gilydd.

**Cynlluniau UDP a Chynlluniau Trafnidiaeth Lleol**

1.17 Mae'r Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol (LTP) yn un o gydrannau canolog strategaeth y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer trafnidiaeth integredig. Dylai pob awdurdod lleol baratoi LTP ar gyfer ei ardal, sy'n nodi ei gynigion ar gyfer cyd-drefnu a gwella pob dull o gludo, y blaenoriaethau buddsoddi yn y dyfodol a'r modd y gweithredir mesurau penodol. Dylai'r awdurdod cynllunio a'r awdurdod priffyrdd sicrhau bod strategaeth drafnidiaeth y cynllun UDP yn gyson â rhaglen weithredu trafnidiaeth a strategaeth hirdymor yr LTP, a'u bod wedi eu hintegreiddio â'i gilydd. Rhoddir cyngor ar gynnwys yr LTP a'u perthynas â'r cynlluniau UDP yn y *Canllawiau ar Gynlluniau Cludiant Lleol yng Nghymru* (Medi 1999).

1.18 Mae'n debygol na fydd rhai o'r materion trafnidiaeth yn y cynlluniau UDP ac LTP yn gyfyngedig i ardal weinyddol un awdurdod lleol yn unig. Anogwyd awdurdodau cynllunio i ffurfio grwpiau er mwyn ystyried materion cynllunio strategol, gan gynnwys trafnidiaeth, ar y cyd fel mewnbwn ar gyfer paratoi'r cynlluniau UDP. Dylai grwpiau o'r fath amcanu i lunio fframwaith strategol cytunedig ar gyfer y polisïau a'r cynigion trafnidiaeth a gynhwysir yn y cynlluniau UDP ac LTP. Os oes modd, dylid paratoi'r UDP a'r LTP yn gyfochrog. Pan nad yw'n bosibl eu paratoi ochr yn ochr, dylid ymdrechu i gymryd cynifer o'r camau ag y gellir yr un pryd, er enghraifft y trefniadau ymgynghori cyhoeddus. Yn y dyfodol, dylid adolygu'r UDP a'r LTP gyda'i gilydd. Er nad yw Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn gyfrifol am baratoi'r LTP, dylent gyfranogi'n llawn yn y broses o'u paratoi a'u hadolygu, er mwyn sicrhau integreiddiad llwyr â'r UDP, sydd yn gyfrifoldeb i Awdurdodau'r Parciau.

1.19 Mae gan lawer o elfennau'r LTP oblygiadau defnydd tir. Yn gyffredinol, dylai unrhyw gynnig penodol yngln â thrafnidiaeth, sy'n ymwneud yn uniongyrchol â datblygu neu ddefnyddio tir, ymddangos fel polisi neu

gynnig yn y cynllun UDP. Yn achos rhai cynigion trafnidiaeth, hwyrach na fydd y cynnig yn ymwneud yn uniongyrchol â defnyddio tir, ond eto bydd ganddo oblygiadau i'r modd y'i defnyddir. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylid cynnwys yr oblygiadau defnydd tir yn y cynllun UDP. Mae'n ofynnol yn ôl Deddf 1990 i 'r awdurdodau gynnwys polisïau yngln â rheoli trafnidiaeth yn eu cynlluniau UDP. Dylai awdurdod gynnwys unrhyw bolisïau yn ei gynllun UDP sy'n berthynol yn uniongyrchol i reoli trafnidiaeth, boed yr oblygiadau defnydd tir yn rhai uniongyrchol neu anuniongyrchol. Dylai'r cynllun UDP nodi'r raddfa amser a'r blaenoriaethau ar gyfer polisïau a chynigion trafnidiaeth, gan adlewyrchu'r rhai a gynhwysir yn yr LTP. Yn ddelfrydol dylid rhaglennu'r polisïau a'r cynigion gyda'r cyllid wedi ei glustnodi. Er mwyn hwyluso hynny, cynghorir awdurdodau i ymgynghori â darparwyr seilwaith trafnidiaeth yn gynnar wrth baratoi ac adolygu'r cynlluniau UDP.

**Parhad Cynllun**

1.20 Dylai cynllun arwain datblygu am gyfnod rhwng 10 a 15 mlynedd o'r dyddiad y rhagwelir mabwysiadu'r cynllun, er y gallai graddfa amser hwy neu amhenodol fod yn briodol ar gyfer rhai polisïau neu fathau o ddatblygu (er enghraifft cadwraeth a diogelu mwynau, datblygiad neu brosiect cadwraeth hirdymor graddol, neu lain las). Wedi ei fabwysiadu, y cynllun UDP fydd y cynllun datblygu mabwysiedig i ddibenion adran 54A Deddf 1990 hyd nes addesir neu amnewidir ef.

**Dyddiad Gweithredu**

1.21 Daw'r UDP yn weithredol ar y dyddiad y mabwysiedir ef. Cynhwysir canllawiau ar y pwysigrwydd y dylid ei dadogi ar bolisïau mewn cynlluniau newydd yn *Canllawiau Cynllunio (Cymru): Diwygiad Cyntaf y Polisi Cynllunio.*

**Tynnu Cynllun yn Ôl**

1.22 Gall awdurdod dynnu cynllun yn ôl ar unrhyw adeg cyn ei fabwysiadu gan yr awdurdod (neu ei gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol os gelwir y cynllun i mewn – gweler paragraff 5.1)

**Malltod ac Osgoi Malltod**

1.23 Dylai'r awdurdod ddarparu'n ddigonol ar gyfer datblygu ac ar gyfer seilwaith. Dylai'r ddarpariaeth fod yn realistig ac yn debygol o gael ei defnyddio o fewn oes y cynllun; bydd hynny yn achosi cyn lleied o falltod ag y bo modd. Unwaith y bydd awdurdod yn cyhoeddi cynllun UDP drafft y mae’n cynnig ei fabwysiadu, o dan Adran 13 (2) Deddf 1990, bydd hyn yn cychwyn y darpariaethau malltod cynllunio. Bydd cyhoeddi cynigion i newid cynllun UDP a fabwysiadwyd, neu ei ddisodoli gan un arall, yn cael yr un effaith.

1.24 Os yw'r amgylchiadau'n newid, a'r cynllun datblygu mabwysiedig bellach yn cynnwys cynigion nad yw'n debygol y'u cyflawnir, dylai'r awdurdod weithredu fel y bo angen, i sicrhau bod hynny yn eglur i'r sawl sy'n defnyddio'r cynllun neu'n cyfeirio ato. Mae hyn yn arbennig o bwysig gyda chynigion ar gyfer prosiectau datblygu neu seilwaith mawr (e.e. cynigion ffyrdd), lle y gall yr ansicrwydd a fwrir ymlaen â'r prosiect ai peidio achosi'r hyn a ystyrir yn falltod gan berchnogion eiddo cyfagos. Y ffordd orau i symud cynigion o'r fath o'r cynllun yw trwy addasu'r cynllun yn ffurfiol. Cydnabyddir, fodd bynnag, y gall penderfyniadau i beidio â symud ymlaen gydag cynigion ddigwydd ar raddfa amser nad yw'n cydweddu â'r amserlen ar gyfer adolygu'r

cynllun, ac unrhyw benderfyniadau dilynol i'w addasu neu'i amnewid. Felly, os penderfynwyd yn bendant i beidio â bwrw ymlaen â chynnig (e.e. trwy benderfyniad ffurfiol y cyngor), dylai'r awdurdod sicrhau bod y penderfyniad i beidio â gwneud hynny ar gael i'r cyhoedd. Y ffordd orau i wneud hynny yw trwy sicrhau bod copi o'r penderfyniad (neu ddogfen briodol arall) ar gael gyda'r copïau o'r cynllun sydd ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd. Hwyrach hefyd y bydd yr awdurdod yn dymuno rhoi gwybod yn uniongyrchol i'r rhai y gellid bod wedi effeithio ar eu tir neu'u heiddo, ac i eraill fel y gwêl yr awdurdod yn dda. Dylai'r awdurdodau ddeall nad yw gweithredu fel hyn yn gyfystyr ag addasu'r cynllun yn ffurfiol. O ran adran 54A Deddf 1990, nid effeithir ar y cynigion yn y cynllun. Fodd bynnag, bydd y cofnod o benderfyniad yr awdurdod i beidio â bwrw ymlaen â'r cynigion yn ystyriaeth berthnasol mewn perthynas ag unrhyw gais cynllunio neu apêl sy'n codi yn ddiweddarach. Dylai'r awdurdod sicrhau y cynhwysir y penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â'r cynnig yn y set nesaf o addasiadau i'r cynllun, neu'r cynllun newydd sy’n ei ddisodli.

## 2. FFURF Y CYNLLUN

### Cynlluniau ar y Cyd

2.1 Gall dau neu ragor o awdurdodau paratoi cynllun UDP ar y cyd ar gyfer eu hardaloedd, ar yr amod:

- bod pob un o'r ardaloedd yn gyffiniol â phob un o'r lleill; neu
- y rhoddwyd caniatâd gan y Cynulliad Cenedlaethol i unrhyw fath arall o gytundeb.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gweld bod cydweithio a pharatoi cynlluniau ar y cyd yn fanteisiol i ansawdd y cynlluniau a gynhyrchir dan rai amgylchiadau, ac hefyd yn fanteisiol i fynd i’r afael yn effeithiol â materion trawsffiniol. Fodd bynnag, mater yw hwn i'w ystyried gan yr awdurdodau yn y lle cyntaf.

2.2 Pan baratoir cynllun ar y cyd, mae'r gweithdrefnau'n gyfrifoldeb ar y cyd i'r awdurdodau a'i paratôdd, ac eithrio:

- bod pob awdurdod yn gyfrifol am adneuo'r cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd o fewn ei ardal ei hunan; a
- bod pob awdurdod yn mabwysiadu'r cynllun mewn perthynas â'i ardal ei hunan, ac y gall ei fabwysiadu gyda diwygiadau os yw pob un o'r awdurdodau eraill, sy'n bartïon yn y cynllun ar y cyd, yn cydsynio â'r diwygiadau.

Wedi i gynllun ar y cyd gael ei fabwysiadu, gall pob awdurdod baratoi cynigion i'w addasu neu'i amnewid mewn perthynas â'i ardal ei hunan.

2.3 Hwyrach y bydd awdurdodau, sy'n paratoi cynlluniau UDP eu hunain, yn gweld mantais mewn ymgymryd â rhai agweddau ar y paratoi fesul dau, neu trwy drefnu i weithio ar y cyd.

### Parciau Cenedlaethol

2.4 Mae pob un o'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru yn awdurdod cynllunio lleol, ac y mae'n

ofynnol iddynt baratoi cynlluniau UDP ar gyfer ei hardaloedd, ac i ymgymryd â swyddogaethau rheoli datblygu ym mhob ardal sydd o fewn eu ffiniau.

2.5 Bydd cynllun UDP Parc Cenedlaethol yn berthynol i ardal a bennir trwy orchymyn y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â'r Parc Cenedlaethol hwnnw. Yr ardal benodedig i Barc Cenedlaethol fydd naill ai'r cyfan o ardal y Parc Cenedlaethol, neu "ardal gyfansawdd", sef y cyfan o'r Parc Cenedlaethol ynghyd ag un neu ragor o ardaloedd eraill yng Nghymru. Ni ellir pennu ardal gyfansawdd ac eithrio gyda chydsyniaeth pob un o'r awdurdodau y lleolid yr ardal benodedig, neu unrhyw ran ohoni, yn eu hardaloedd. Lle y pennir ardaloedd cyfansawdd, byddant yn effeithio ar weithrediad y Darpariaethau Trosiannol (gweler Atodiad A). Paratoir y cynllun UDP ar gyfer ardal gyfansawdd gan yr awdurdodau y lleolir eu hardal, neu unrhyw ran o'u hardal, o fewn ardal y cynllun hwnnw.

**Pwyllgorau Ardal**

2.6 Prosesir pob UDP fel cynllun sengl, ond lle y sefydlwyd Pwyllgorau Ardal gyda chytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol yn y gorffennol neu'r Cynulliad Cenedlaethol yn gyfredol, gall awdurdod ofyn am gymeradwyaeth y Cynulliad i drosglwyddo'r cyfrifoldeb am Ran II ei gynllun i'r Pwyllgorau Ardal. Gallai pob Pwyllgor Ardal arwain y drafftio a'r ymgynghori ynghylch y rhannau o'r cynllun sy'n cynnwys cynigion i ddatblygu tir o fewn ardal y Pwyllgor. Byddai'r awdurdodau yn parhau'n gyfrifol am baratoi Rhan I y cynllun, ac am adneuo a mabwysiadu'r cynllun UDP cyfan.

**Teitl y Cynllun**

2.7 Rhaid rhoi teitl i bob cynllun, gan gynnwys enw ardal yr awdurdod a'r math o gynllun. Dylid egluro statws y ddogfen hefyd, gan nodi dyddiad paratoi'r cynlluniau drafft neu'r dyddiad mabwysiadu. Dylai'r awdurdodau ddangos y manylion hyn ar bob tudalen o'r ddogfen, fel nad oes amheuaeth ynghylch statws unrhyw ddetholiad a ddyfynnir ar unrhyw adeg.

**Polisïau, Cynigion a Lefel Manylder**

2.8 Rhaid i'r polisïau a'r cynigion fod yn berthnasol i ddatblygu tir a / neu ddefnyddio tir rywfodd arall. Ni ddylent ddyblygu'r darpariaethau a wneir mewn cyfundrefnau deddfwriaethol eraill, er enghraifft deddfwriaeth iechyd amgylcheddol, rheoliadau adeiladu neu iechyd a diogelwch. Ni ddylai'r polisïau fod yn faith, yn gymhleth, yn annelwig nac yn orfanwl. Dylid eu mynegi yn eglur, yn syml ac yn ddiamwys, a dylai fod modd eu gweithredu a'u monitro. Trwy sicrhau hynny bydd yn haws paratoi a mabwysiadu'r cynllun a darparu gwell canllawiau i'w ddefnyddwyr, a bydd penderfyniadau rheoli datblygu yn llai cymhleth ac yn fwy tryloyw. Ni ddylai polisïau gynnwys datganiadau bwriad na disgrifio trefniadau gweinyddol.

2.9 Gall polisïau fod yn berthynol i'r cyfan neu ran o ardal y cynllun, gan nodi'r criteria a ddefnyddir i farnu a ddylid caniatáu datblygiad ai peidio, ac i safleoedd unigol. Mae cynigion ar gyfer safleoedd penodol yn cynnig arweiniad positif ar gyfer datblygu, ac yn creu sicrwydd i ddatblygwyr ac i'r gymuned leol. Trwy nodi safleoedd

ar gyfer datblygu gall yr awdurdod arddangos sut y gweithredir strategaeth a gweledigaeth y cynllun yn ymarferol. Fodd bynnag, byddai gormod o bolisïau safle-benodol yn creu cynllun anhyblyg, a fyddai hwyrach yn dyddio'n gynnar a byddai angen ei addasu neu'i amnewid wrth i'r amgylchiadau newid. Gall polisïau a lunnir yn briodol ar sail criteria helpu i symleiddio cynlluniau, tra'n caniatáu hyblygrwydd mewn meysydd lle mae hynny'n ddymunol. Gellir defnyddio criteria i farnu ceisiadau cynllunio mewn amrywiaeth eang o amgylchiadau. Fodd bynnag, ni ddylai'r awdurdodau gynnwys gormodedd o bolisïau sail-criteria, gan y gallai hynny gymhlethu penderfyniadau rheoli datblygu, ac achosi gwrthdaro rhwng polisïau o fewn y cynllun. Gellir rheoli hyn orau drwy lunio nifer cyfyngedig o bolisïau generig yn ofalus er mwyn cwmpasu amryw o wahanol fathau o ddatblygiad.

2.10 **Mae cyfle nodedig i awdurdodau lleol ddysgu oddi wrth y profiad a enillwyd wrth baratoi cynlluniau eraill.** Er y dylid llunio polisïau mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r amgylchiadau lleol penodol, ar adegau bydd geiriad y polisi ar bwnc mewn cynllun penodol yn addas i'w ddefnyddio gan awdurdod lleol arall. Mae arweiniad ymarfer da Cymdeithas y Swyddogion Cynllunio (POS), *Better Local Plans – A Guide to Writing Effective Policies* (POS, 1997) yn cynnwys cynghorion gwerthfawr yngln ag egwyddorion sylfaenol llunio polisïau cynlluniau lleol, sydd hefyd yn gymwys i bolisïau UDP; mae'n cynnwys nifer o enghreifftiau o bolisïau y gellir eu haddasu fel sy'n briodol i amgylchiadau lleol. Mae *Development Plans – A Good Practice Guide* (Adran yr Amgylchedd, Gwasg ei Mawrhydi, 1992) hefyd yn cynnig cynghorion ar yr hyn y dylid ei gynnwys mewn polisïau a chynigion mewn cynlluniau. Gall sefydliadau yr ymgynghorwyd â hwy wrth baratoi cynllun UDP hefyd ddarparu cynigion defnyddiol ynghylch eu buddiannau penodol hwy eu hunain yn ystod y broses o ddrafftio polisi.

2.11 Ni ddylai cynlluniau, trwy gyfrwng polisïau neu gynigion, geisio pennu ardaloedd lle y bydd cyfleusterau neu grantiau arbennig ar gael, neu lle y gweithredir amodau ymgynghori arbennig. Dylai'r cynlluniau, fodd bynnag, nodi unrhyw bolisïau defnydd tir, a weithredir o fewn unrhyw ardaloedd a bennir trwy gyfrwng trefniadau eraill.

**Canllawiau Cynllunio Atodol (SPG)**

2.12 Dylai'r cynlluniau UDP, sy'n ddarostyngedig i weithdrefnau statudol, gynnwys polisïau a chynigion a fydd yn sail i benderfynu ceisiadau cynllunio, ac i bennu'r amodau a atodir i ganiatadau cynllunio; fodd bynnag, dylent osgoi gorfanylder. Dylai'r awdurdodau yn hytrach ystyried defnyddio Canllawiau Cynllunio Atodol (SPG) fel arweiniad mwy manwl i'r modd y gweithredir polisïau'r cynllun UDP mewn amgylchiadau neu feysydd penodol.

2.13 Nid yw canllawiau SPG yn rhan o'r cynllun. Gallant fod ar ffurf arweiniad dylunio neu gyfarwyddyd datblygu ardal, neu'n atodol i bolisïau penodol eraill sydd yn y cynllun. Rhaid i'r canllawiau SPG eu hunain fod yn gyson â chanllawiau cynllunio cenedlaethol, yn ogystal â'r polisïau a bennir yn y cynllun datblygu mabwysiedig. Dylid eu croesgyfeirio'n eglur at y polisi neu'r cynnig perthnasol y maent yn atodol iddo yn y cynllun; dylid eu cyhoeddi ar wahân i'r cynllun; a dylid eu rhoi ar gael i'r cyhoedd, gan wneud eu statws yn eglur. Dylid adolygu'r canllawiau SPG yn rheolaidd, wrth adolygu'r polisïau neu'r cynigion yn y cynllun datblygu, y mae'r canllawiau SPG yn berthynol iddynt.

2.14 Er mai'r polisïau yn y cynllun datblygu'n unig a all deilyngu'r statws arbennig a ddarperir gan adran 54A Deddf 1990 ar gyfer penderfynu ceisiadau cynllunio (gweler paragraff 1.12), gellir rhoi sylw i'r SPG fel ystyriaeth berthnasol. Wrth benderfynu ar faterion a ddaw ger ei fron, bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn rhoi cryn bwys ar ganllawiau SPG sy'n tarddu o'r cynllun datblygu ac yn gyson ag ef, ac a baratowyd yn y dull priodol. Dylid paratoi canllawiau SPG gan ymgynghori â'r cyhoedd, busnesau a buddianwyr eraill, a dylid ystyried eu safbwyntiau cyn cwblhau'r canllawiau yn derfynol. Dylai'r canllawiau wedyn fod yn destun penderfyniad gan y cyngor, i'w mabwysiadu fel canllawiau atodol. Wedi eu mabwysiadu, dylai fod datganiad ar gael gyda'r canllawiau SPG, naill ai mewn atodiad neu mewn dogfen ar wahân, yn nodi pa ymgynghori a wnaed, pa sylwadau a dderbyniwyd, ac ymateb yr awdurdod i'r sylwadau hynny.

2.15 Gall canllawiau SPG chwarae rhan ddefnyddiol fel atodiad i'r polisïau a'r cynigion sydd yn y cynllun. Pwysleisir, fodd bynnag, bod rhaid ymatal rhag defnyddio'r canllawiau SPG i osgoi cyflwyno i sylw'r cyhoedd, yn unol â'r gweithdrefnau statudol, y polisïau a'r cynigion y dylid eu cynnwys yn y cynllun. Ni ddylai'r polisïau sydd yn y cynllun geisio dirprwyo'r criteria ar gyfer penderfynu ceisiadau cynllunio i'r canllawiau SPG nac i gyfarwyddiadau datblygu.

2.16 Rhoddir canllawiau ymarfer da pellach, yn benodol ar SPG safle-benodol, yn *Planning and Development Briefs: A Guide to Better Practice* (DETR, 1998).

**Gwerthuso Cynaliadwyedd Cynlluniau**

2.17 Mae'r Rheoliadau Cynlluniau Datblygu yn mynnu bod awdurdodau yn rhoi sylw i ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd wrth baratoi cynlluniau datblygu. Fodd bynnag, dylai'r polisïau yn y cynlluniau datblygu ymdrin â'r **agweddau ar ddatblygu cynaliadwy y gellir ymdrin â hwy trwy gyfrwng y system gynllunio defnydd tir.** Gellir cynnwys, yn y cyfiawnhad gyda rhesymau, ystyriaethau heblaw defnyddio tir, os oes ganddynt oblygiadau defnydd tir, neu os ydynt yn esbonio neu'n rhoi rhesymau am benderfyniadau yngln â pholisïau yn y cynllun. **Mae angen ystyried rhyngweithiad y gwahanol polisïau sydd yn y cynllun. Er enghraifft, dylid ystyried yn llawn goblygiadau amgylcheddol a chymdeithasol unrhyw bolisïau a gynllunnir i hyrwyddo twf economaidd.**

2.18 Dylai pob awdurdod gynnal gwerthusiad cynaliadwyedd llawn o'i gynllun datblygu. Dylid gwneud hyn yng nghyd-destun Cynllun Datblygu Cynaliadwy'r Cynulliad Cenedlaethol a chynllun yr awdurdod ei hunan neu'i strategaeth Agenda 21 Leol. Mae *Planning and Development Briefs: A Guide to Better Practice* (DETR, 1998) hefyd yn cynnig cyngor yngln â gwerthuso o'r fath. Gall *Proposals for a Good Practice Guide on Sustainability Appraisal of Regional Planning Guidance* (DETR, 1999) fod yn ddefnyddiol i'r awdurdodau. Bydd y Cynulliad maes o law yn cyhoeddi cyngor pellach yngln â gwerthuso cynaliadwyedd.

2.19 Dylai gwerthuso fod yn elfen bwysig yn ystod pob cam ym mhroses y cynllun datblygu. Dylai'r broses gyfan fod yn iteraidd, fel y bo gan yr awdurdod, ar ddiwedd y broses, gasgliad o amcanion eglur sy'n goleuo pob rhan o'r cynllun datblygu. Dylai'r broses wneud yn eglur sut a pham y dewiswyd yr opsiynau o ran polisi a chynigion. Dylid arfarnu dewisiadau eraill ar gyfer polisïau, cynigion a lleoliadau datblygu pan’n briodol. Ar adegau allweddol wrth baratoi'r cynllun datblygu (e.e. cyn adneuo'r cynllun ac wrth ei adneuo) dylai gwerthuso'r cynllun fod yn destun ymgynghori cyhoeddus, gan ddefnyddio'r atebion i'r ymgynghori i oleuo'r cam nesaf ym mharatoad y cynllun. Ni ddylai'r fersiwn o'r cynllun a adneuir gynnwys y gwerthusiad llawn, o'i fewn ond dylai'r cyfiawnhad o'r cynllun gyda rhesymau ddangos yn eglur pa elfennau yn y gwerthuso a oleuodd

y polisïau a'r cynigion sydd yn y cynllun.

2.20 Ar ddechrau'r broses gwerthuso, mae'n bwysig cynnal astudiaeth gwmpasu, er mwyn adolygu'r amrediad o faterion sydd i'w hystyried, a nodi'r rhai pwysicaf. Dylid defnyddio *Canllawiau Cynllunio (Cymru): Diwygiad Cyntaf y Polisi Cynllunio*, Polisi Cynllunio Mwynau Cymru, a'r Nodiadau Cyngor Technegol yn gymorth i nodi'r polisïau a'r cynigion sy'n debygol o gael eu cynnwys yn y cynlluniau. Mae angen trefnu'r broses werthuso mewn ffordd a fydd yn ei gwneud yn ddefnyddiol i bawb y bydd arnynt angen gwneud penderfyniadau ar sail ei chanlyniadau, gan gynnwys swyddogion cynllunio ac aelodau etholedig, datblygwyr , ac aelodau eraill o'r cyhoedd. Dylai awdurdodau cyfagos amcanu i wneud y prosesau gwerthuso yn gyson â'i gilydd. Dylent oleuo, a chael eu goleuo, gan waith asiantaethau eraill sy'n ymwneud â materion cynaliadwyedd; trwy gynnwys cyrff allanol yn y broses gwerthuso gellir helpu i ddilysu'r holl broses.

2.21 Dylai'r broses gwerthuso barhau ar ôl mabwysiadu'r cynlluniau. Dylai'r cynlluniau gynnwys dangosyddion allweddol y gellir eu monitro trwy gydol oes y cynllun. Mae'r broses werthuso yn fecanwaith y gellir enwi a monitro dangosyddion addas drwyddi. Gall y dangosyddion hyn wedyn oleuo adolygiadau o'r cynllun, a'r angen am unrhyw addasiad diweddarach i'r polisïau, neu amnewid y cynllun. Ceir llawer o ffynonellau gwybodaeth cyfredol yn rhestru dangosyddion ar lefelau Cymru a'r DU, a gallent fod o gymorth wrth lunio rhestr o ddangosyddion sy'n addas ar gyfer cynllun UDP penodol. Mae'r ffynonellau hyn yn cynnwys: Set Llywodraeth y DU o Ddangosyddion Perfformiad; Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau ac Awdurdodau Lleol y DETR/ Y Comisiwn Archwilio; Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau y Cynulliad Cenedlaethol; *Cymru Gynaliadwy: Mesur y Gwahaniaeth: Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru*, y Cynulliad Cenedlaethol; Dangosyddion Perfformiad Agenda 21 Lleol.

2.22 Nid yw'r ffaith bod cynllun wedi ei werthuso yn dileu'r angen i asesu effaith amgylcheddol cynigion datblygu unigol, pan fo hynny'n ofynnol trwy ddeddfwriaeth. Hyd yn oed pan fo cynllun wedi ei werthuso, ac y cynigir datblygiad yn ddiweddarach sy'n cydymffurfio â'r cynllun, rhaid cynnal asesiad effaith amgylcheddol os yw'n ofynnol yn unol â Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999 (SI 1999 Rhif 293)

**Argaeledd Dogfennau**

2.23 Mae'n ddyletswydd ar yr awdurdod i roi'r cynllun ac amryw o ddogfennau, adroddiadau a datganiadau eraill a gynhyrchwyd yn ystod y weithdrefn a arweiniodd at ei fabwysiadu neu'i gymeradwyo, ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd ac i hysbysebu eu bod ar gael. Rhaid i gopïau o'r dogfennau hyn aros ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd am 6 wythnos ar ôl dyddiad cyhoeddi hysbysiad mabwysiadu, cymeradwyo neu wrthod y cynllun (sef y cyfnod herio cyfreithiol). Dylai unrhyw gyfarwyddyd neu hysbysiad oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol yngln â'r cynllun hefyd fod ar gael i'w archwilio.

2.24 Dylai fod copïau o'r cynllun a'r dogfennau cyhoeddus cysylltiedig ar gael i'w prynu. Pan fabwysiedir neu pan gymeradwyir y cynllun, dylai barhau ar gael i'w archwilio. Cyn gynted ag y bo'n ymarferol, rhaid ei argraffu a'i roi ar gael i'w archwilio yn ogystal ag i'w brynu am bris rhesymol. Dylai'r awdurdodau ystyried y manteision o ddarparu gwybodaeth am y cynllun ar y Rhyngrwyd; mae paragraff 3.22 yn cynnwys canllawiau yngln â rhoi cynlluniau ar gael mewn fformat digidol.

**Fersiynau 'Poblogaidd'**

2.25 Dylai’r awdurdodau gynhyrchu fersiynau rhad o'r cynllun UDP wedi ei symleiddio, megis map ar un dudalen gyda chrynodeb o'r cynigion ar y cefn, neu bamffled byr. Dylai'r rhain gynnwys nodyn yn esbonio lle y gellir archwilio'r cynllun UDP cyflawn. Dylid paratoi fersiynau o'r crynodeb hwn yn ieithoedd lleiafrifoedd ethnig fel sy'n briodol, ac mewn print bras.

**Defnyddio'r Gymraeg a’r Saesneg**

2.26 Fel cyrff cyhoeddus, mae'n ofynnol i'r awdurdodau yng Nghymru weithredu, cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, yr egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Pennir y modd y bydd pob awdurdod yn gweithredu'r egwyddor honno yng Nghynllun Iaith Gymraeg yr awdurdod. Mae'n debygol y bydd y Cynllun hwnnw'n berthnasol i bob cam yn y broses o baratoi ac adolygu cynlluniau UDP, ond yn fwyaf penodol i'r modd y bydd awdurdodau'n hysbysebu cynigion, yn ymgynghori â'r cyhoedd, yn cyfathrebu â gwrthwynebwyr ac yn trefnu i gynnal ymchwiliadau a gwrandawiadau. Mae'r cyfarfodydd cyn-ymchwiliad yn fforymau lle y gellir trafod yr ieithoedd y bwriedir eu defnyddio yn yr ymchwiliad, fel y gall gwrthwynebwyr, ac eraill sy'n dymuno cymryd rhan yn y broses trwy gyfrwng un ai’r Gymraeg neu’r Saesneg, wneud hynny'n effeithiol.

## 3. CYNNWYS Y CYNLLUN

### Egwyddorion Cyffredinol

3.1 Rhaid i'r cynlluniau gynnwys polisïau ar wella'r amgylchedd ffisegol, rheoli traffig, cadwraeth harddwch naturiol ac amwynder tir, a pholisïau i annog rheoli nodweddion y tirlun sydd o bwys mawr i blanhigion ac anifeiliaid gwyllt. Mae *Canllawiau Cynllunio (Cymru): Diwygiad Cyntaf y Polisi Cynllunio*, Polisi Cynllunio Mwynau Cymru, a'r Nodiadau Cyngor Technegol yn cynnwys canllawiau i'r pynciau y dylid eu hystyried i'w cynnwys mewn cynlluniau UDP.

3.2 Gyda'i gilydd, mae Deddf 1990 a'r Rheoliadau Cynlluniau Datblygu yn mynnu bod awdurdod cynllunio lleol yn rhoi sylw i 'r canlynol:

1. unrhyw ganllawiau cynllunio perthnasol a gyhoeddir gan y Cynulliad Cenedlaethol;
2. y polisïau cenedlaethol cyfredol;
3. yr adnoddau sy'n debygol o fod ar gael;
4. ystyriaethau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol;
5. y strategaeth wastraff genedlaethol;
6. yr amcanion o atal damweiniau mawr yngln â sylweddau peryglus, a chyfyngu eu canlyniadau i ddyn a'r amgylchedd.

3.3 Wrth baratoi cynlluniau UDP, **rhaid i'r awdurdod roi sylw i'r polisïau cenedlaethol a nodir yn y canllawiau cynllunio a gyhoeddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol.** Fodd bynnag, ni ddylai'r awdurdodau ddyfynnu rhannau helaeth o'r dogfennau hyn yn eu cynlluniau, Dylai'r pwyslais fod ar gynhyrchu polisïau

cynllun datblygu sy'n gweithredu'r polisi cenedlaethol a rhanbarthol yn lleol. Gall y Cynulliad ymyrryd mewn achos lle mae'r cynllun UDP yn mynd yn groes i'r canllawiau cenedlaethol heb gynnig rhesymau digonol i gyfiawnhau hynny.

3.4 **Dylid ysgrifennu pob cynllun mewn iaith syml, ddiamwys a ddeëllir yn hawdd gan bawb y mae arnynt angen gwybodaeth am y polisïau a'r cynigion cynllunio sy'n berthnasol i'w hardal**. Dylid ystyried anghenion pob adran o'r gymuned wrth benderfynu ar ddull ac arddull y cynllun. Bydd crynodeb o'r cynllun a mynegai cyflawn yn helpu i wneud y cynllun yn fwy hygyrch. Os gellir, dylid osgoi defnyddio jargon; os oes raid defnyddio termau technegol, dylid eu hesbonio mewn geirfa.

**Yr UDP - Rhan I a Rhan II**

3.5 Rhaid i'r UDP fod yn ddogfen unigol sy'n cynnwys dwy ran: Rhan I a Rhan II. Dylai **Rhan I** gynnwys rhagymadrodd sy'n amlinellu pwrpas a chynnwys y cynllun yn gryno; gan ddatgan strategaeth gyffredinol, nodau, amcanion a thargedau'r cynllun; a chynnwys datganiad ysgrifenedig o bolisïau a chynigion cyffredinol yr awdurdod, sydd o bwys yn strategol i ddatblygu a defnyddio tir yn ei ardal. Bydd y strategaeth eang yn Rhan I, ar gyfer datblygu a defnyddio tir yn darparu fframwaith i gynigion manwl yr awdurdod yn Rhan II. Dylai **Rhan II** gynnwys datganiad ysgrifenedig o bolisïau manwl yr awdurdod a'i gynigion penodol ar gyfer datblygu a defnyddio tir; cyfiawnhad gyda rhesymau o'r polisïau cyffredinol yn Rhan I ac o'r cynigion yn Rhan II o'r cynllun; ynghyd â map i ddangos y cynigion hyn yn eu cyd-destun daearyddol. Rhaid i'r cynigion yn Rhan II o'r cynllun gydymffurfio â'r polisïau yn Rhan I.

**Rhan I**

3.6 Dylai'r **rhagymadrodd** (a leolir yn Rhan I o'r cynllun) egluro swyddogaeth a phwrpas y cynllun, a chrynhoi'r fframwaith cynllunio y paratowyd ef ynddo, h,y, y polisïau cenedlaethol a strategol. Dylai hefyd esbonio perthynas y cynllun â pholisïau, rhaglenni a strategaethau rheoli eraill yr awdurdod (gweler paragraff 1.15) ac â pholisïau cynllunio'r awdurdodau cyfagos.

3.7 Dylai'r rhagymadrodd hefyd gynnwys datganiad eglur a chryno o'i brif **nodau, amcanion** a **thargedau** ac o'r **strategaeth** a ddefnyddir i'w cyrraedd, gan roi sylw i lefelau tebygol yr adnoddau cyhoeddus a phreifat a fydd ar gael, O'u cymryd gyda'i gilydd, dylai'r strategaeth, y nodau, amcanion a thargedau ddarparu **gweledigaeth** eglur o'r hyn a gyflawnir trwy weithredu'r cynllun, gan wneud blaenoriaethau'r awdurdod yn eglur o'r dechrau. Wrth ymgynghori yn ystod y cyfnod cyn adneuo, gall fod yn ddefnyddiol cynnwys dewisiadau eraill o ran strategaethau, polisïau a chynigion ynghyd ag asesiad o'u manteision cymharol. Ni ddylid cynnwys dewisiadau eraill yn y cynllun a adneuir, ond dylai'r awdurdod nodi yn gryno, yn y cyfiawnhad gyda rhesymau, pa amrediad o opsiynau a ystyriwyd, ac ar ba sail y gwnaed y dewisiadau.

3.8 Bydd nodau, amcanion a thargedau eglur yn y cynllun, ynghyd ag esboniad eglur pa fodd y gweithredir y polisïau a'r cynigion, gan ba asiantaeth a thros ba gyfnod, yn hwyluso'r gwaith o **fonitro** gweithrediad ac effeithiolrwydd y polisïau.

3.9 Dylai Rhan I ym mhob cynllun UDP ddarparu datganiad o'r strategaeth gyffredinol ar gyfer datblygu a defnyddio tir yn yr ardal; dylai ymdrin â'r materion canlynol pan fônt yn berthnasol i'r ardal benodol a gwmpesir:

a. Tai;

b. Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig, trwy ddulliau sy'n cynnwys gwella dylunio a defnyddio lleiniau glas os yw'n briodol;

c. Yr economi, gan gynnwys amaethyddiaeth, coedwigaeth, diwydiant, busnes, adwerthu a mathau eraill o ddatblygu sy'n creu cyflogaeth a chyfoeth;

d. Strategaeth defnydd-tir / trafnidiaeth sy'n ymdrin â hygyrchedd a'r ddarpariaeth o gyfleusterau cludo strategol ac integredig, gan gynnwys priffyrdd, rheilffyrdd a seilwaith arall;

e. Gweithfeydd mwynau (gan gynnwys gwaredu gwastraff mwynau) ac amddiffyn adnoddau mwynol;

f. Diogelu adnoddau naturiol;

g. Rheoli a gwaredu gwastraff, adfer ac ailddefnyddio tir a'r peryglon;

h. Twristiaeth, hamdden, chwaraeon ac adloniant;

i. Cynhyrchu ac arbed ynni, gan gynnwys ynni adnewyddadwy.

Mae datblygu cynaliadwy yn fater y dylid ei ystyried wrth lunio pob polisi. Dylai'r awdurdodau ystyried hefyd a oes ganddynt rai cymunedau lle y mae defnyddio'r iaith Gymraeg yn rhan o'r gwead cymdeithasol. Pan fo'r iaith yn rhan o'r gwead cymdeithasol, dylid ystyried anghenion a buddiannau'r iaith wrth lunio'r polisïau a gynhwysir yn y cynllun.

3.10 Dylai'r cynlluniau gynnwys dimensiwn trefol a gwledig pob polisi defnydd-tir perthnasol, a dylent roi sylw penodol i'r nodweddion sy'n wahanol mewn ardaloedd gwledig, er enghraifft teneurwydd y boblogaeth, aneddiadau bychain, anghenion economaidd penodol, a materion yngln â hygyrchedd, pellter a lleoliad ar y cyrion.

3.11 Dylai Rhan I nodi'r ddarpariaeth gyffredinol a wneir ar gyfer datblygu yn yr ardal gyfan, gan gynnwys ffigurau ar gyfer tai (gan gynnwys tai fforddiadwy), bras-leoliad y prif ardaloedd twf, a'r lleoliadau a ffefrir ar gyfer mathau penodol o ddatblygiadau mawr (e.e. tai, hamdden a chyflogaeth); lleoliad cyffredinol datblygiadau mawr a strategol unigol sy'n debygol o effeithio'n sylweddol ar ardal y cynllun (e.e. anheddiad newydd); a nodi'r ardaloedd yn fras lle yr atelir datblygu.

3.12 Dylai Rhan I gynnwys, yn unig, y polisïau a'r cynigion sydd yn ddilys yn darparu fframwaith strategol ar gyfer y polisïau a'r cynigion manwl yn Rhan II ac ar gyfer rheoli datblygu.

**Rhan II**

3.13 Dylai Rhan II gynnwys datganiad ysgrifenedig a map o'r cynigion.

3.14 Dylai'r **datganiad ysgrifenedig** ddatgan polisïau a chynigion ar gyfer datblygu a defnyddio tir yn yr ardal, yn benodol y rhai a fydd yn sail i benderfynu ceisiadau cynllunio, a phennu'r amodau a atodir i ganiatadau cynllunio.

3.15 Dylai'r datganiad ysgrifenedig gynnwys **cyfiawnhad gyda rhesymau** o'r polisïau a'r cynigion yn Rhan I a Rhan II o'r cynllun. Bydd pawb sy'n ymwneud â materion datblygu yn gwerthfawrogi esboniad a chyfiawnhad cryno ac eglur o'r fath bolisïau a chynigion. Dylai'r cyfiawnhad gyda rhesymau gynnwys, yn unig, esboniad o'r hyn sydd tu ôl i'r polisïau a'r cynigion yn y cynllun; ni ddylai gynnwys y polisïau na'r cynigion eu hunain, a ddefnyddir i benderfynu ceisiadau cynllunio. Er mwyn osgoi dryswch, dylai fod modd gwahaniaethu'n rhwydd rhwng polisïau a chynigion ar y naill law, a'r cyfiawnhad gyda rhesymau ar y llall(er enghraifft trwy ddefnyddio mathau gwahanol o deip).

3.16 Dylai'r cyfiawnhad gyda rhesymau gynnwys datganiad yn esbonio pa sylw a roddwyd gan yr awdurdod, wrth lunio ei bolisïau cyffredinol yn Rhan I a'i gynigion yn Rhan II, i'r materion a bennir yn Neddf 1990 ac yn y Rheoliadau Cynlluniau Datblygu (gweler paragraff 3.2 uchod).

3.17 Dylai pob awdurdod sicrhau y rhoddir ystyriaeth lawn i'r rhyngweithio rhwng polisïau'r cynllun. Er y gellir cyfiawnhau estyn cwmpas y cynlluniau tu hwnt i'r pynciau a nodir ym mharagraff 3.9 mewn achosion penodol, bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn barod i ymyrryd i ddileu neu ddiwygio polisïau sy'n ymwneud â materion eraill, neu sy'n orfanwl.

3.18 Gall y datganiad ysgrifenedig gynnwys pa bynnag ddiagramau, lluniau neu ddeunydd disgrifiadol neu esboniadol arall, yngln â'r polisïau a'r cynigion yn Rhan I a Rhan II , a ystyrir yn briodol gan yr awdurdod neu a bennir.

3.19 Yn Rhan II gall yr awdurdod ddynodi unrhyw ran o'i ardal yn **ardal weithredu**, lle y dylai triniaeth gynhwysfawr trwy ddatblygu o'r newydd, ailddatblygu, adfer a gwella, gan awdurdodau cyhoeddus neu fentrau preifat, ddechrau o fewn cyfnod o 10 mlynedd ar ôl adneuo'r cynllun (sef y 'cyfnod penodedig').

3.20 Dylai'r **'map cynigion'** ddarlunio pob un o'r polisïau manwl a'r cynigion sydd yn y datganiad ysgrifenedig, gan ddiffinio'r safleoedd ar gyfer datblygiadau penodol, a'r ardaloedd lle y gweithredir y polisïau rheoli datblygu a bennir. Dylai'r awdurdodau ddefnyddio nodiant cyffredin, os oes modd, i ddynodi polisïau defnydd tir mewn ardaloedd cyfagos. Dylid dangos ffiniau unrhyw ardaloedd dynodedig lleol neu genedlaethol, megis arfordiroedd treftadaeth, ardaloedd cadwraeth ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, i arwyddo bod amrediad o bolisïau rheoli datblygu penodol yn berthnasol yno. Rhaid i'r map fod yn seiliedig ar yr Arolwg Ordnans, gan ddangos y raddfa a chynnwys esboniad o'r nodiant a ddefnyddir. Gall gynnwys un neu ragor o ddalennau, a gellir atodi **mewnosodiadau** ar raddfa fwy, pan fo angen dangos rhai cynigion yn fwy eglur. Rhaid i bob map a fewnosodir ddangos pob un o'r cynigion ar gyfer yr ardal a gwmpesir yn y mewnosodiad. Rhaid dangos terfynau pob mewnosodiad yn fanwl gywir ar y map cynigion, a rhaid i'r cynigion a ddangosir ar fewnosodiad beidio ag ymddangos ar y prif fap.

3.21 **Os digwydd i'r datganiad ysgrifenedig a'r map cynigion groesddweud ei gilydd, y darpariaethau yn y datganiad ysgrifenedig a fydd yn sefyll.**

3.22 O ganlyniad i ddatblygu **mapio digidol**, mae modd i awdurdod roi 'r cynlluniau, mapiau a diagramau sydd yn ei gynllun ar gael mewn fformat cyfrifiadurol, yn amodol ar ragofalon hawlfraint priodol. Pan fo awdurdod yn dewis gwneud hynny, mae'n bwysig ei fod yn cadw'r holl wybodaeth sy'n berthynol i'r cynllun mewn un cyfeiriadur ffynhonnell, er mwyn cydosod y cynllun a data eraill, a'u dadansoddi'n haws. Bydd defnyddio mapio digidol yn hwyluso gwaith yr awdurdod yn diwygio'i gynlluniau. Fodd bynnag, boed yr awdurdod yn penderfynu rhoi'r cynllun ar gael mewn fformat digidol ai peidio, bydd yn rhaid iddo gydymffurfio â'r gofynion yn y Rheoliadau Cynlluniau Datblygu, i roi copïau caled (h.y. ar bapur) o gynigion y cynllun, a dogfennau eraill, ar gael i'w harchwilio yn ystod pob cam sy'n arwain at fabwysiadu'r cynllun.

**Adnoddau**

3.23 Mae Deddf 1990 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod dalu sylw i argaeledd tebygol adnoddau, wrth baratoi'r polisïau a chynigion cyffredinol yn Rhan I y cynllun UDP. Mae angen seilio'r cynllun ar ragdybiaethau realistig ynghylch yr adnoddau sy'n debygol o fod ar gael, a dylai'r cynllun roi ystyriaeth i'r polisïau economaidd cenedlaethol, i bolisïau ariannol y gwahanol asiantaethau gweithredol, ac i argaeledd tebygol tir, llafur ac adnoddau perthnasol eraill.

3.24 Dylai'r cyfiawnhad gyda rhesymau gynnwys nodyn o'r rhagdybiaethau ynghylch yr adnoddau sy'n debygol o fod ar gael. Dylai roi sylw penodol i gadwraeth adnoddau meidrol neu anadnewyddadwy megis tir ac ynni, yr angen am ddatblygu cynaliadwy, a'r oblygiadau i wariant cyfalaf yn y sector cyhoeddus. Dylai'r rhagdybiaethau fod yn rhai cyffredinol, ac ni ddylent amcanu at fanylder afrealistig.

## 4. GWEITHDREFNAU'R CYNLLUN A GWELLA'R BROSES O BARATOI CYNLLUNIAU

### Gwella'r Broses Reoli, a Phennu Amserlen ar gyfer Mabwysiadu Cynlluniau

4.1 Mae'r amser maith a gymerir i baratoi a mabwysiadu cynlluniau yn bryder i'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n hanfodol bod yr awdurdodau yn rhoi blaenoriaeth ddigonol i baratoi ac adolygu cynlluniau, ac yn rheoli eu prosiect yn well wrth ymdrin â'r broses o baratoi cynlluniau, trwy:

- ystyried yr amser a gymer i fabwysiadu cynllun, a'r adnoddau y bydd arnynt eu hangen, o ran staff a chyllid yn ystod gwahanol gyfnodau'r broses. Dylid gwneud hyn cyn gynted ag y penderfynir paratoi , addasu neu amnewid cynllun;
- mabwysiadu yn gyhoeddus amserlen sy'n estyn hyd at fabwysiadu'r cynllun, ar ddechrau'r broses o baratoi'r cynllun;
- dilyn egwyddorion rheoli prosiect, sy'n caniatáu monitro ac adolygu'r symudiad tuag at fabwysiadu'r cynllun, gyferbyn â'r amserlen a fabwysiadwyd yn gyhoeddus.

4.2 Bydd angen gosod targedau a mesur perfformiad gyferbyn â'r targedau hynny yn unol â'r fframwaith Gwerth Gorau. Bydd Gwerth Gorau yn berthnasol i wasanaethau cynllunio, ar yr un sail ag i bob gwasanaeth arall a ddarperir gan awdurdod. Felly, bydd y prosesau o baratoi, addasu ac amnewid cynlluniau datblygu, yn

ogystal â'r gweithdrefnau monitro ac adolygu, yn destun cynlluniau perfformiad, gyda thargedau ar gyfer darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Disgwylir i bob awdurdod gyfiawnhau'r modd y mae'n dewis ymgymryd â'i gyfrifoldeb am y cynllun datblygu.

4.3 Ni fyddai amserlen safonol benodedig ar gyfer pob cynllun trwy Gymru gyfan yn briodol, oherwydd gwahaniaethau sylweddol yn natur y materion cynllunio a drinnir gan yr awdurdodau yng nghyd-destun paratoi'r cynlluniau. Bydd yr amserlen yn wahanol hefyd i gynllun UDP a baratoir am y tro cyntaf mewn ardal benodol, o gymharu ag UDP a addesir neu a amnewidir.

4.4 Dylid paratoi'r amserlen ar gyfer pob UDP wedi trafod yn gyntaf gydag Is-adran Gynllunio'r Cynulliad Cenedlaethol, a dylid mabwysiadu'r amserlen gan yr awdurdod trwy benderfyniad ffurfiol y Cyngor. Dylai awdurdodau geisio cwrdd â thargedau’r amserlen a dim ond mewn achosion eithriadol, pan fo ffactorau tu hwnt i reolaeth yr awdurdod yn ei rwystro rhag cyflawni’r targedau cychwynnol, y dylid ystyried amserlen ddiwygiedig. Dylid ymgynghori â'r Gyfarwyddiaeth Gynllunio yngln â threfniadau ac amseriad yr ymchwiliad cyhoeddus, a dylai’r awdurdod drafod Cytundeb Gwasanaeth gyda'r Gyfarwyddiaeth, ar gyfer y rhan o broses gyffredinol y cynllun datblygu sy'n ymwneud â'r ymchwiliad lleol.

**Arolygon a Gwybodaeth**

4.5 Yn unol â Rhan II Deddf 1990, mae'n ofynnol i awdurdod gadw pob mater dan arolwg, y disgwylir iddo effeithio ar ddatblygu yn ardal yr awdurdod, neu ar gynllunio datblygu. Mae'r Ddeddf yn galluogi'r awdurdodau i gynnal arolygon yn eu hardaloedd i ymchwilio i faterion o'r fath, ac yn mynnu eu bod yn cadw dan arolwg:

- prif nodweddion ffisegol ac economaidd yr ardal;
- maint, cyfansoddiad a dosbarthiad y boblogaeth (sefydlog neu fel arall) yn yr ardal; a'r
- cysylltiadau, y system drafnidiaeth a thraffig yn yr ardal.

Rhaid i awdurdod hefyd ystyried yr effeithiau yn ei ardal o ganlyniad i faterion cyffelyb mewn ardaloedd cyfagos, trwy ymgynghori â'r awdurdodau perthnasol. Yn ychwanegol, gall y Cynulliad Cenedlaethol bennu neu gyfarwyddo y dylid arolygu materion eraill. Dylai'r awdurdod fod yn ddetholgar, gan ganolbwyntio ar y deunydd y mae arno'i angen i baratoi a monitro'r cynllun. Dylid canlyniadau arolygon neu ymchwil fod ar gael i'w harchwilio ar gais gan y cyhoedd.

4.6 Yr hyn sydd orau yn gyffredinol er lles y system gynllunio yw sicrhau bod y cynlluniau wedi eu diweddaru cyn belled ag y gellir erbyn adeg eu mabwysiadu. Fodd bynnag, daw gwybodaeth newydd i'r amlwg yn aml yn ystod cyfnod paratoi'r cynllun, sy'n uniongyrchol berthnasol i'r cynnwys, ac y dylid ei chymryd i ystyriaeth wrth lunio cynigion y cynllun. Gall gwybodaeth o'r fath ddeillio'n rhannol o bolisïau cenedlaethol newydd.

4.7 Pan fo modd, dylid corffori'r wybodaeth newydd yn y cynllun cyn ei fabwysiadu, a thrwy hynny sicrhau bod y cynllun wedi ei diweddaru'n briodol pan fabwysiedir ef. Dylid corffori'r wybodaeth newydd yn y cynllun a baratoir mewn ffordd strwythuredig; nifer cyfyngedig o gyfleoedd a geir i wneud hynny, cyn y bydd yn rhaid i'r Cynllun Adneuedig fynd gerbron ymchwiliad. O hynny ymlaen bydd unrhyw newidiadau yn faterion i'w cynnwys yn y Diwygiadau Arfaethedig. Os yw'r cynllun ar fin ei fabwysiadu pan ddaw'r wybodaeth newydd i law, hwyrach mai'r dewis hwylusaf fydd mabwysiadu'r cynllun fel y mae, ac yna cychwyn adolygiad cynnar o'r cynllun. Yn gyffredinol, ystyr "ar fin ei fabwysiadu" yn yr amgylchiadau hyn yn pan fo unrhyw broses o

ddiwygio eisoes wedi ei chwblhau ac / neu na ddisgwylir unrhyw ddiwygiadau pellach i'r cynllun. Os oes angen, bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn arfer ei ber i orchymyn paratoi'r addasiadau angenrheidiol o fewn cyfnod penodedig.

## Ymgynghori, Negodi a Chyfranogiad y Cyhoedd

### *Ymgynghori cyn Adneuo*

4.8 Nid yw'r Rheoliadau Cynlluniau Datblygu yn pennu'r modd sut y dylai awdurdod ymgynghori cyn adneuo'r cynllun; ond maent yn mynnu bod yr awdurdod yn ymgynghori â'r canlynol ac yn rhoi ystyriaeth i'w sylwadau cyn penderfynu ar gynnwys y cynllun a adneuir:

- y Cynulliad Cenedlaethol;
- cyngor unrhyw gymuned a gwmpesir yn y cynigion;
- unrhyw awdurdod cynllunio lleol cyffiniol (yng Nghymru neu Loegr);
- Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru;
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

Rhaid i'r awdurdod baratoi datganiad yn enwi unrhyw bersonau eraill y bu'n ymgynghori â hwy, ac yn nodi'r camau a gymerodd i roi hysbysrwydd i'w gynigion ac i roi cyfle i rai sydd â diddordeb neu fuddiant i wneud eu sylwadau. Mae'n bwysig bod yr awdurdod yn sicrhau cyhoeddusrwydd digonol i'w gynigion a'r mecanweithiau a sefydlir ar gyfer gwneud sylwadau, er mwyn annog pob sector o'r gymuned i gyfranogi. Yn Atodiad B rhestrir amrywiaeth eang o gyrff y cynghorir awdurdodau lleol i ymgynghori â hwy, pan yw'n ymddangos bod agweddau ar y polisïau a'r cynigion yn y cynllun yn effeithio ar eu buddiannau.

4.9 Dylai'r bobl leol a chyrff eraill sydd â diddordeb gael cyfle i fynegi eu barn ar y cynigion yn y cynllun cyn eu paratoi yn eu ffurf orffenedig. Y nod yw annog y bobl leol i gymryd rhan weithredol mewn paratoi cynlluniau o'u dechreuad, fel y gallant ymuno'n llawn yn y penderfyniadau yngln â phatrwm y datblygu yn eu hardal. Trwy ymgynghori ag aelodau'r cyhoedd, grwpiau cymunedol, grwpiau cadwraeth ac amwynderau, busnes, a buddiannau datblygu a seilwaith, cynorthwyir yr awdurdod i sicrhau consensws o radd uchel ynghylch datblygu a defnyddio tir o fewn yr ardal. Gall helpu hefyd i leihau'r amser a dreulir cyn mabwysiadu cynlluniau, trwy leihau nifer y gwrthwynebiadau ffurfiol i'r polisïau, a thrwy hynny leihau'r amser a dreulir ar y camau olaf yn y broses o baratoi'r cynllun.

4.10 Mater i bob awdurdod unigol yw penderfynu ffurf yr ymgynghori, a gellir ei addasu yn y ffordd orau ar gyfer y grp penodol a dargedir; hwyrach, felly, y bydd gofyn defnyddio dull gwahanol ar gyfer cyrff allweddol a grwpiau busnes, o gymharu dyweder ag aelodau'r cyhoedd neu grwpiau o fuddianwyr. Hwyrach y bydd

ymgynghori ynghylch addasiad bach mewn cynllun, er enghraifft, yn gofyn am broses llai dwys nag amnewid cynllun cyfan. Fodd bynnag, mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn awyddus i bwysleisio wrth yr awdurdodau **nad** oes angen iddynt baratoi drafft cyflawn o'r cynllun ar gyfer y broses o ymgynghori. Mae'r ymarfer gorau yn awgrymu mai trwy ymgynghori ar sail papurau ar faterion yn ymwneud â strategaeth eang a chyfeiriad y cynllun y gellir nodi orau, wrth ymgynghori, pa mor debygol yw'r polisïau a'r cynigion yn y cynllun o fod yn dderbyniol yn gyffredinol. Hwyrach y bydd awdurdod yn dymuno cynnal trafodaethau cynnar gyda buddianwyr ar faterion allweddol r, gan geisio bras gytundeb cyn paratoi drafftiau manwl o'r Rhannau I a II. Rhoddir rhai enghreifftiau o wahanol dechnegau ymgynghori, a chyngor yngln â'r ymarfer gorau yn *Development Plans - A Good Practice Guide* (Adran yr Amgylchedd, Gwasg ei Mawrhydi, 1992).

***Adneuo; Trafod a Negodi gyda Gwrthwynebwyr***

4.11 Pan adneuir y cynllun UDP i'w archwilio gan y cyhoedd, rhaid i'r awdurdod hysbysebu hynny a rhoi gwybod i gyngoredigion, gan ganiatáu chwe wythnos i gyflwyno sylwadau. Rhaid i'r awdurdod anfon pedwar copi o'r cynllun at y Cynulliad Cenedlaethol, ynghyd ag unrhyw ddogfennau eraill y cyfeirir atynt yn yr hysbyseb, gan gynnwys o reidrwydd copi o ddatganiad yr awdurdod ar ymgynghori a chyhoeddusrwydd. Dylai'r awdurdod hefyd roi gwybod i gyngoredigion statudol (gweler paragraff 4.9 uchod) ac unrhyw gorff neu unigolyn arall a ystyrir yn angenrheidiol gan yr awdurdod.

4.12 Dylid annog gwrthwynebwyr a’r rheini sy’n cefnogi’r cynllun i ddefnyddio ffurflen safonol sy'n nodi yn eglur unrhyw wrthwynebiad neu gyflwyniad sy’n cefnogi’r cynllun. Dylai’r gwrthwynebwyr nodi’r rhesymau dros y gwrthwynebiad, yn ogystal â'r diwygiadau a geisir. Cynhwysir **model o ffurflen** yn llyfryn y Cynulliad Cenedlaethol, *Cynlluniau Datblygu Unedol: Arweiniad i'r Gweithdrefnau* ; mae'r llyfryn hwn hefyd yn pwysleisio mai dan amgylchiadau eithriadol yn unig y bydd yr awdurdod yn ystyried derbyn gwrthwynebiadau hwyr. Dylai'r awdurdod hefyd hysbysu gwrthwynebwyr y gallant gofrestru eu gwrthwynebiad drwy ddefnyddio’r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig os nad ydynt yn dymuno ymddangos mewn ymchwiliad. **Priodolir yr un pwysigrwydd gan yr Arolygwyr i wrthwynebiadau a wneir yn y ffordd hon, â'r gwrthwynebiadau a wneir ar lafar mewn ymchwiliad**.

4.13 Dylai'r awdurdod geisio datrys cynifer o'r gwrthwynebiadau ag y bo modd cyn yr ymchwiliad cyhoeddus, trwy drafod a negodi. Er mwyn hwyluso'r broses hon o negodi, dylai gwrthwynebwyr nodi, yn rhan o'u gwrthwynebiad, pa newidiadau yn y cynllun a fyddai'n lliniaru eu gwrthwynebiad.

4.14 Dylai'r awdurdod ystyried yn ofalus effaith y newidiadau a negodir ar gysondeb cyffredinol y cynllun a'i strategaeth. Os oes nifer o wrthwynebiadau yn cyfeirio at faterion cyffelyb eu natur, gall fod yn ddefnyddiol cynnal trafodaeth gan gynnwys pob un o'r gwrthwynebwyr ar y materion hynny. Mewn achosion eraill hwyrach y byddai'n fwy priodol negodi gydag unigolion, er enghraifft darpar ddatblygwyr ar gyfer safleoedd penodol a nodir yn y cynllun. Mewn llawer achos ni fydd yn bosibl datrys y gwrthwynebiad yn gyfan gwbl trwy negodi newidiadau i'r cynllun. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'n bwysig bod y gwrthwynebwr a'r awdurdod yn deall yn eglur pa faterion y parheir i anghytuno yn eu cylch. Bydd hynny o gymorth i'r Arolygydd mewn unrhyw ymchwiliad i'r cynllun yn ddiweddarach. Dylai'r awdurdod sylweddoli beth yw goblygiadau unrhyw newidiadau cyn-ymchwiliad anstatudol arfaethedig, o ran yr angen am broses diwygiadau yn ddiweddarach. Nid yw cynigion am newidiadau o'r fath, hyd yn oed os hysbysebir hwy ac y gwahoddir sylwadau, yn gyfystyr â newidiadau ffurfiol i'r cynllun. Felly, hyd yn oed os dyfernir o blaid y newidiadau mewn ymchwiliad, bydd gofyn eu hymgorffori yn y cynllun wedi'r ymchwiliad, trwy broses diwygiadau. Rhoddir cyngor pellach ar faterion gweithdrefnol o'r fath yn llyfryn y Cynulliad Cenedlaethol, *Cynlluniau Datblygu Unedol - Arweiniad*

*i'r Gweithdrefnau.*

**Ymchwiliad Lleol neu Wrandawiad Arall**

4.15 Mae'n ofynnol i awdurdod drefnu i gynnal ymchwiliad cyhoeddus neu wrandawiad arall er mwyn ystyried gwrthwynebiadau i gynllun UDP a wnaed yn unol â'r Rheoliadau Cynlluniau Datblygu, oni bai fod pob un o'r gwrthwynebwyr yn datgan mewn ysgrifen nad yw'n dymuno ymddangos. Mae gwrandawiadau anffurfiol yn rhan arferol o fwyafrif yr ymchwiliadau sy'n delio â gwrthwynebiadau llai dadleuol. Mae nodyn cynghori'r Gyfarwyddiaeth Gynllunio *Development Plan Inquiries* yn darparu cyngor i awdurdodau ar faterion ymarferol yngln â pharatoi a chynnal ymholiadau.

**Adroddiad yr Arolygydd**

4.16 Dylai'r awdurdod roi adroddiad yr Arolygydd ar gael o fewn 8 wythnos i'w derbyn, gyda chopïau o'r adroddiad ar gael i'w harchwilio yn y mannau lle yr adneuwyd y cynllun. Dylai'r adroddiad hefyd fod ar gael i'w brynu am ffi resymol cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Er mwyn cynorthwyo'r trefniadau ar ôl yr ymchwiliad, bydd adroddiad yr Arolygydd yn cynnwys rhestr o'r holl argymhellion a wneir yn yr adroddiad.

**Gweithdrefnau Ôl-ymchwiliad a Diwygiadau**

4.17 Wedi iddo ystyried adroddiad ac argymhellion yr Arolygydd, bydd yn ofynnol i'r awdurdod adneuo'i benderfyniad ar bob un o'r argymhellion yn adroddiad yr Arolygydd. Pan fo'r awdurdod yn gwrthod derbyn argymhelliad, rhaid iddo ddarparu rhesymau eglur a grymus dros wrthod. Bydd modd gwrthwynebu o hyd, unrhyw benderfyniad i wrthod argymhelliad gan Arolygydd.

4.18 Bydd angen i'r awdurdod benderfynu hefyd a oes angen hysbysebu diwygiadau i'r cynllun. Bydd angen diwygiadau, er enghraifft:

- os yw'r awdurdod yn penderfynu derbyn argymhelliad gan yr Arolygydd, sy'n ymwneud â safle neu bolisi nad oedd yn gynwysedig yn y fersiwn a adneuwyd o gynigion y cynllun, er enghraifft yn dyfarnu o blaid gwrthwynebiad sy'n cynnig dyraniad safle-benodol newydd;
- os gwnaed newidiadau cyn-ymchwiliad i'r cynllun a gynigiwyd gan yr awdurdod, a'r newidiadau hynny wedi eu cadarnhau gan argymhellion yr Arolygydd - hyd yn oed os ydynt yn destun proses o hysbysebu ac yn agored i'w gwrthwynebu, bydd proses diwygiadau ffurfiol yn dal yn ofynnol;
- os yw'r awdurdod yn cynnig (am ba reswm bynnag) newidiadau pellach i'r cynllun ar ôl yr ymchwiliad - hwyrach er mwyn cynnwys gwybodaeth newydd. Parheir i annog yr awdurdodau i ymatal rhag defnyddio proses diwygio i'r unig bwrpas o ymgorffori gwybodaeth newydd, ond yn hytrach i geisio

adolygiad cynnar o'r cynllun (gweler paragraffau 4.6 i 4.7). Fodd bynnag, gellid ymgorffori gwybodaeth newydd yn rhan o gyfres o ddiwygiadau a wneir i ddibenion eraill (e.e. yn ymateb i argymhellion Arolygydd). Cynghorir awdurdodau i drafod yr angen i ymgorffori gwybodaeth newydd fel diwygiadau i'r cynllun gyda'r Isadran Gynllunio yn y Cynulliad Cenedlaethol.

4.19 Gellir gwneud newidiadau minimal, megis cywiro neu ddiweddaru gwybodaeth, neu gywiro camgymeriadau ffeithiol neu ramadegol nad ydynt yn newid ystyr unrhyw bolisi na'r cyfiawnhad gyda rhesymau, heb unrhyw weithdrefnau diwygio ffurfiol.

4.20 Pan hysbysebir diwygiadau i'r cynllun ar ôl ymchwiliad, caniateir cyfnod statudol o chwe wythnos i wrthwynebu'r diwygiadau hynny a gynigir. Dylai'r awdurdod benderfynu a yw'r gwrthwynebiadau i'r diwygiadau yn teilyngu ymchwiliad cyhoeddus pellach; rhoddir canllawiau ar hyn yn llyfryn y Cynulliad, *Canllawiau Datblygu Unedol – Arweiniad i'r Gweithdrefnau.*

**Mabwysiadu**

4.21 Gall yr awdurdod wneud penderfyniad i fabwysiadu'r cynllun, naill ai fel y'i paratowyd yn wreiddiol neu fel y'i diwygiwyd, ar yr amod:

- bod unrhyw wrthwynebiad a wnaed i'r cynllun wedi ei ystyried (gydag ymchwiliad lleol neu hebddo);
- nad yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cyhoeddi gorchymyn "dal" neu wedi galw'r holl gynllun neu ran ohono i mewn i'w gymeradwyo;
- os yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi gorchymyn yr awdurdod i ailystyried unrhyw gynigion yn y cynllun, y bodlonwyd y Cynulliad bod yr awdurdod wedi gwneud unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol, neu fod y gorchymyn wedi ei dynnu yn ôl; a
- bod cyfnod o 28 diwrnod o leiaf wedi mynd heibio er pan hysbysodd yr awdurdod y Cynulliad Cenedlaethol ac eraill ei fod o'r feddwl y dylid mabwysiadu'r cynllun.

**Monitro, Adolygu ac Addasu ac Amnewid Cynlluniau**

***Effeithiolrwydd y Monitro***

4.22 Mae'n ofynnol i awdurdod gadw'r y materion sy'n effeithio ar ddatblygu ei ardal neu ar gynllunio'r ardal honno dan arolwg. Dylid mynegi polisïau a chynigion mewn ffurf hwylus ar gyfer monitro ac adolygu. Dylai'r cyfiawnhad gyda rhesymau nodi sut y cyflawnir y monitro a'r adolygu, gan bwysleisio'r nodweddion critigol y seilir y cynllun arnynt.

4.23 Mae gofyn cael system syml i ddyfarnu effeithiolrwydd y cynllun. Dylai'r nodau, yr amcanion a'r targedau ddarparu sail gyson ar gyfer:

- monitro a yw'r cynllun yn cyflawni'r hyn y mae'n ceisio ei gyflawni;
- nodi pa bolisïau y dylid eu cryfhau, eu parhau, eu newid mewn rhyw ffordd, neu - mewn achosion lle nad yw'r polisi wedi cyflawni unrhyw ddiben - eu dileu o'r cynllun.

Bydd y broses monitro hon yn darparu mewnbwn ar gyfer penderfynu a ddylid adolygu'r cynllun, a beth fydd cwmpas unrhyw adolygiad.

4.24 Dylai awdurdodau gyhoeddi adroddiadau monitro cynlluniau UDP yn flynyddol; dylai’r rhain gynnwys yr holl dir ar gyfer tai ac unrhyw dir datblygu arall. Mae nifer o awdurdodau eisoes yn gwneud hyn ar ffurf adolygiad monitro blynyddol. Mae *Development Plans – A Good Practice Guide* (Adran yr Amgylchedd, Gwasg ei Mawrhydi, 1992) yn cynnwys enghreifftiau pellach o ymarfer da yngln â monitro a gwerthuso cynlluniau.

***Adolygu Cynlluniau***

4.25 Rhaid adolygu cynlluniau yn rheolaidd. Bydd amseriad ac amledd yr adolygu yn dibynnu ar yr amgylchiadau lleol, gan gynnwys y trefniadau a baratowyd er mwyn adolygu’r fframwaith strategol ar gyfer polisïau a chynigion trafnidiaeth y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 1.18, ond trwy fonitro'n effeithiol gellir casglu'r wybodaeth angenrheidiol er mwyn penderfynu a ddylid cynnal adolygiad. Hwyrach y bydd digwyddiadau annisgwyl, neu ganllawiau cynllunio cenedlaethol newydd neu ddiwygiedig yn effeithio ar y polisïau neu'r cynigion yn y cynllun, ac y bydd yn synhwyrol adolygu'r cyfan neu ran ohono.

4.26 Dylai'r awdurdod fanteisio ar adolygiad o'r cynllun i ystyried hefyd a fu'r polisïau a / neu'r cynigion yn y cynllun yn ddefnyddiol, o ran annog datblygu lle y ceisid hynny neu o ran atal datblygu mewn ardaloedd lle nad oedd yn briodol. Mae'r broses adolygu yn gyfle positif i ystyried a ellir gwneud y cynlluniau datblygu'n fwy cryno a phwrpasol fyth. Bydd unrhyw dystiolaeth nad yw polisi neu gynnig wedi cyflawni dim o fudd yn ysgogiad hwyrach i'w symud o'r cynllun. Mae'n gyfle hefyd i ailasesu'r dyraniadau safleoedd presennol, nad ydynt eto wedi cael caniatâd cynllunio. Bydd angen ystyried unrhyw ganllawiau cynllunio cenedlaethol diwygiedig, a manteisio ar y cyfle i ddileu'r dyraniadau safle llai cynaliadwy, gan osod rhai mwy cynaliadwy yn eu lle. Dichon hefyd y ceir cyfle i ystyried pa mor realistig yw'r dyraniadau safle, ac a fyddai dulliau eraill o ddefnyddio'r safleoedd bellach yn fwy priodol (er enghraifft, hwyrach y byddai safle, a ddyrannwyd mewn cynllun i'w ddefnyddio ar gyfer cyflogaeth ond lle mae datblygu yn ymddangos yn annhebygol, yn addas ar gyfer tai neu ddatblygiad defnydd-cymysg).

4.27 Er nad oes rheolau yngln â pha mor aml y dylid adolygu cynllun, disgwylir i gynlluniau gael **eu hadolygu'n llawn o leiaf unwaith bob pum mlynedd**, a gall fod yn briodol cynnal adolygiadau rhannol (e.e. ar feysydd pwnc penodol) yn amlach na hynny.

***Addasu ac Amnewid Cynlluniau***

4.28 Gellir cyfiawnhau *amnewid cynllun* (h.y. cynllun cwbl newydd ) os yw adolygiad yn dangos bod y cynllun cyfredol wedi dyddio'n sylweddol, ac oherwydd hynny bod angen addasiadau ar raddfa sylfaenol. Mae *addasiadau* i'r cynllun yn fwy tebygol o fod yn briodol pan fo angen treiglo'r cynllun yn ei flaen yn rhannol, neu pan fo'r rhagfynegiadau a'r rhagdybiaethau wedi newid, neu pan fo angen polisïau ychwanegol i ymdrin â materion annisgwyl. O fewn y fframwaith eang hwn, gall rhaglen dreigl o addasiadau, yn dilyn adolygiadau rheolaidd, gadw'r cynlluniau yn gyfoes a chefnogi amcanion y system dilyn-cynllun, sef darparu sicrwydd; penderfyniadau cyflymach, rhesymegol a chyson; a lleihad yn nifer y ceisiadau ac apelau cynllunio cyfeiliornus.

4.29 Pan gynigir addasiadau, dylid dangos y gwyriadau oddi wrth y polisïau a'r cynigion presennol yn eglur wrth roi'r addasiadau ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd. Wrth benderfynu gwneud addasiadau i'w gynllun, dylai'r awdurdod ystyried maint y gydberthynas rhwng polisïau, a'r effeithiau posibl ar bolisïau eraill yn y cynllun, oherwydd newid un polisi. Os detholir addasiadau heb ystyried goblygiadau'r cysylltiadau rhwng y gwahanol feysydd polisi o fewn y cynllun, gellir difrodi cydlyniad ac effeithiolrwydd y cynllun cyfan. Wrth benderfynu ar strwythur ei gynllun datblygu a'i gynnwys, dylai'r awdurdod ystyried i ba raddau y bydd trefn a mynegiant y cynllun yn hwyluso'r gwaith o'i adolygu a'i addasu yn ddiweddarach. Er enghraifft, hwyrach y bydd modd dethol rhannau o'r cynllun ar sail ddaearyddol er mwyn eu hadolygu, os yw'r cynllun gwreiddiol yn cynnwys adrannau ar wahân, gyda pholisïau a chynigion penodol i is-ardaloedd o fewn y cynllun. Bydd hyn hefyd hwyrach yn ddigon hyblyg i ganiatáu rhoi sylw i faterion sy'n codi mewn ardal benodol, nad oeddynt yn amlwg pan fabwysiadwyd y cynllun.

4.30 Pan wneir addasiadau i'r cynllun, nid yw'r Rheoliadau Cynlluniau Datblygu yn caniatáu i wrthwynebwyr wrthwynebu ar y sail bod yr awdurdod wedi penderfynu peidio ag addasu polisi penodol. I fod yn briodol, rhaid i wrthwynebiad ganolbwyntio ar yr addasiadau a gynigir, gan gynnwys unrhyw oblygiadau i rannau eraill nad addesir yn y cynllun. Wrth adneuo addasiadau i'r cynllun, dylai'r awdurdod nodi’r polisïau hynny yn y cynllun nad addesir, ond a ystyrir gan yr awdurdod yn gysylltiedig mewn ffordd uniongyrchol â'r polisïau a addesir. Bydd hyn yn cynorthwyo gwrthwynebwyr i adnabod cwmpas y gwrthwynebiadau posibl i'r addasiadau a gynigir. Fodd bynnag, mater i'r awdurdod fydd penderfynu a ddylid ystyried sylwadau ar bolisi cysylltiedig yn wrthwynebiad y mae'n rhaid ei drafod mewn ymchwiliad.

4.31 Gall fod o gymorth i'r awdurdod drafod cwmpas yr addasiadau gydag Isadran Gynllunio'r Cynulliad Cenedlaethol, cyn ymgynghori nac adneuo'r cynigion yn ffurfiol. Mae pwerau gan y Cynulliad i orchymyn paratoi, addasu neu amnewid cynlluniau o fewn graddfeydd amser penodedig. Ystyrir defnyddio'r pwerau hyn os nad yw awdurdod yn gweithredu'n ddigonol er mwyn cadw'i gynllun datblygu yn gyfoes.

### Ymarfer Gorau

4.32 Gall awdurdod reoli'r broses o baratoi a mabwysiadu cynllun yn well trwy ddysgu am yr ymarfer gorau gan eraill. Mae cyngor ymarfer da i'w gael eisoes yn *Development Plans – A Good Practice Guide* (Adran yr Amgylchedd, Gwasg ei Mawrhydi, 1992) (gweler hefyd paragraff 2.10 uchod am gyngor ymarfer da yngln â llunio polisïau). Goleuir y broses ymhellach maes o law gan gyngor ymarfer gorau ychwanegol ar reoli prosiect y cynllun, technegau ymgynghori effeithiol, negodi, a monitro ac adolygu.

## 5. RHAN Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL YM MHROSES Y CYNLLUN, A HERIO YN YR UCHEL LYS

### Rhan y Cynulliad Cenedlaethol

5.1 Mae modd i'r Cynulliad Cenedlaethol gymryd rhan yn y broses ddatblygu:

- *trwy ymgynghori*

Mae'r Cynulliad yn un o'r cyngoredigion statudol ar gyfer cynlluniau UDP, a dylid ymgynghori ag ef yn gynnar yn y broses o baratoi cynllun (gweler Atodiad B). Trwy gynnal deialog barhaus â'r Cynulliad, dichon y gellir osgoi ymyrraeth fwy ffurfiol yn ddiweddarach yn ystod proses y cynllun.

- *wrth adneuo'r cynllun*

Gall y Cynulliad gofnodi gwrthwynebiadau i'r cynllun a adneuir;

- *trwy orchymyn diwygio*

  Mae Deddf 1990 yn galluogi'r Cynulliad i gyhoeddi gorchymyn i'r awdurdod i ddiwygio ei gynllun mewn modd penodol cyn ei fabwysiadu. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi pwerau i'r Cynulliad i orchymyn addasu, neu amnewid y cynllun.

- *trwy alw cynllun i mewn*

  Gellir galw cynllun, neu ran o gynllun, i mewn i'w benderfynu gan y Cynulliad.

Bydd y Cynulliad yn archwilio cynlluniau, addasiadau i gynlluniau, a chynlluniau a amnewidir, i ganfod a ydynt yn gyson â'r canllawiau cenedlaethol, ynteu 'n gwrthdaro â'r canllawiau, heb gyfiawnhad amlwg oherwydd amgylchiadau lleol. Bydd y Cynulliad yn defnyddio'r pwerau sydd ganddo i orchymyn diwygiadau i'r cynllun, neu alw'r cyfan neu ran ohono i mewn i'w benderfynu, fel y bo angen, pan fo pob cam arall wedi methu. Rhoddir manylion pellach am yr amgylchiadau pan ellir defnyddio pwerau o'r fath, yn llyfryn y Cynulliad, *Canllawiau Datblygu Unedol – Arweiniad i'r Gweithdrefnau.*

**Herio yn yr Uchel Lys**

5.2 Mae adran 287 Deddf 1990 yn caniatáu i unrhyw berson herio dilysrwydd cynllun datblygu neu unrhyw addasiad neu gynllun amnewid, ar y sail nad yw o fewn y pwerau a gyflwynir yn Rhan II o'r Ddeddf, neu na chydymffurfiwyd â gofynion y Rhan honno o'r Ddeddf neu'r rheoliadau a wnaed yn unol â hi (e.e. y Rheoliadau Cynlluniau Datblygu). Mewn amgylchiadau o'r fath, gellir gwneud cais i'r Uchel Lys i ddileu'r cynllun neu ran o'r cynllun. Rhaid gwneud cais o fewn chwe wythnos i ddyddiad yr hysbysiad cyntaf a gyhoeddir bod y cynllun wedi ei fabwysiadu.

5.3 Os dilëir cynllun cyfan o ganlyniad i'w herio'n llwyddiannus dan adran 287, byddai angen i’r awdurdod adneuo set gyflawn newydd o gynigion. Pan ddilëir rhan o'r cynllun yn unig, bydd y rhannau sy'n weddill yn cadw eu statws mabwysiedig, a bydd yn rhaid i'r awdurdod gyflwyno addasiadau ffurfiol i'r cynllun, os yw am osod polisïau a chynigion yn lle y rhai a ddilëwyd.

## 6. DILEU CYNGOR BLAENOROL

6.1 Dilëir trwy hyn *Canllawiau Cynllunio (Cymru): Cynlluniau Datblygu Unedol* (Swyddfa Gymreig, 1996). Bydd y canllawiau a ddarperir yn y rhannau sy'n weddill o *PPG 12 (Wales): Development Plans and Strategic Planning Guidance in Wales* (Swyddfa Gymreig, 1992) yn parhau'n berthnasol ar gyfer cynlluniau strwythur a chynlluniau lleol, a ddygir ymlaen gan awdurdodau yn unol â darpariaethau Atodlen 5, Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994.

## ATODIAD A

## TREFNIADAU TROSIANNOL

### Cyflwyniad

A1. Rhoddir manylion llawn am y trefniadau ar gyfer dechrau'r cynlluniau UDP a'r darpariaethau trosiannol yn Rhan II a Rhan III, Atodlen 5, Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994. Crynodeb o'r canllawiau yn unig yw'r cyngor yngln â threfniadau trosiannol a gynhwysir yn yr Atodiad hwn. Ystyr "darpariaethau trosiannol " yn yr Atodiad hwn yw'r darpariaethau yn Rhan III, Atodlen 5, Deddf 1994. Mewn Parciau Cenedlaethol, hwyrach y bydd y modd y dygir y darpariaethau trosiannol ymlaen yn dibynnu ar yr ardal benodedig, a bennir gan yr Cynulliad Cenedlaethol (gweler paragraff 2.5 yn y prif bapur).

### Etifeddu Cynlluniau - Parhad Cynlluniau Strwythur a Lleol, a Hen Gynlluniau Datblygu

A2. Yr oedd pob cynllun a oedd yn bresennol ar y pryd(boed wedi ei gymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu ei fabwysiadu gan yr awdurdod), a oedd yn berthynol i unrhyw ran o Gymru, yn parhau mewn grym ar ac ar ôl 1 Ebrill 1996. Diffinnir cynllun presennol fel cynllun strwythur, cynllun lleol neu unrhyw hen gynllun datblygu, cyn belled â'i fod mewn grym mewn unrhyw ardal yng Nghymru yn union cyn 1 Ebrill 1996. Mae cynllun presennol yn cynnwys unrhyw addasiad neu amnewidiad o'r cynllun hwnnw a wnaed ar ôl 1 Ebrill 1996, yn unol â'r darpariaethau trosiannol. Mae cynllun lleol yn cynnwys cynllun lleol mwynau, cynllun lleol gwastraff, ac unrhyw gynllun lleol a "gadwyd" yn unol â thelerau Deddf Cynllunio a Digolledu 1991.

A3. Bydd effaith unrhyw gynllun a oedd yn bresennol, ac unrhyw gynllun a baratowyd dan y darpariaethau trosiannol, ar gyfer ardal yr awdurdod priodol, yn peidio pan ddaw cynllun UDP yn weithredol ar gyfer yr ardal honno.

### Cynlluniau Datblygu: Darpariaethau Trosiannol

A4. Mae'r darpariaethau trosiannol yn berthnasol i ardal unrhyw awdurdod yng Nghymru o 1 Ebrill 1996 hyd nes bydd y cynllun UDP ar gyfer yr ardal honno yn gweithredu'n llawn.

A5. Derbyniodd nifer o awdurdodau gymeradwyaeth neu ganiatâd yr Ysgrifennydd Gwladol i barhau eu gwaith cynllun strwythur neu gynllun lleol (yn unol â Phennod II, Rhan II, Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990) ar

gyfer rhan neu'r cyfan o'u hardaloedd. Gwnaed y darpariaethau hyn er mwyn caniatáu i waith cynllun a oedd eisoes ar droed barhau hyd at fabwysiadu, pan ystyrid bod hynny'n hwylus neu'n ddymunol ar y pryd.

A6. Lle na ddaliwyd ymlaen gyda'r gwaith cynllun strwythur neu gynllun lleol, bydd y cynlluniau drafft hynny yn parhau yn ystyriaeth ar gyfer penderfyniadau rheoli datblygu, gyda'r pwysau a briodolir iddynt yn cynyddu yn ôl pa mor bell y symudwyd tuag at eu mabwysiadu.

**Ymgorffori Polisi Cyfredol mewn Cynlluniau Datblygu Unedol**

A7. Wrth baratoi cynllun UDP ar gyfer ei ardal, gall awdurdod ddynodi polisi yn y cynllun fel "polisi presennol". Polisi presennol yw polisi y mae ei sylwedd yn gynwysedig mewn cynllun lleol sydd mewn grym ar gyfer ardal briodol y cynllun UDP; rhoddir cyngor pellach ar hyn yn llyfryn y Cynulliad Cenedlaethol, *Cynlluniau Datblygu Unedol - Arweiniad i'r Gweithdrefnau.*

**Galw Cynllun UDP i Mewn**

A8. Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi galw'r cyfan neu ran o gynllun UDP i mewn i'w gymeradwyo, ac os yw'r gymeradwyaeth ddilynol ar gyfer rhan o'r cynllun yn unig, ni fydd y cynllun yn gweithredu'n gyflawn hyd nes bydd pob rhan o'r cynllun UDP yn weithredol. Ni all yr awdurdod gychwyn gweithredu rhannau o'r cynllun ar wahanol adegau.

**Dileu Cynllun Strwythur**

A9. Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn cymeradwyo'r cyfan neu unrhyw ran o Ran I cynllun UDP ar gyfer y cyfan neu ran o ardal awdurdod, gall y Cynulliad trwy orchymyn ddileu, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, cynllun strwythur presennol ar gyfer yr ardal a gwmpesir gan y Rhan I UDP priodol. Gall y Cynulliad hefyd wneud unrhyw addasiadau i'r cynllun strwythur presennol sy'n angenrheidiol neu'n hwylus. Mae'n ofynnol i'r Cynulliad ymgynghori â'r awdurdod ar gyfer yr ardal cyn gwneud gorchymyn o'r fath.

**Blaenoriaeth i Gynlluniau Lleol dros Gynlluniau Strwythur**

A10. Bydd darpariaethau cynllun lleol a oedd mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 1996 yn sefyll yn hytrach nag unrhyw ddarpariaethau sy'n gwrthdaro mewn cynllun strwythur sydd mewn grym ar gyfer yr ardal, ac eithrio pan fo'r cynllun lleol:

- cyn 1 Ebrill 1996 wedi cael datganiad gan yr awdurdod cynllunio strwythur yn nodi nad yw'n cydymffurfio â'r cynllun strwythur; ac
- nad yw wedi ei addasu na'i amnewid ar ôl cyflwyno'r datganiad hwnnw.

A11. Os yw cynllun lleol wedi ei fabwysiadu neu'i gymeradwyo gan awdurdod ar ôl 1 Ebrill 1996, bydd darpariaethau'r cynllun lleol hwnnw yn sefyll, i bob pwrpas, yn hytrach nag unrhyw ddarpariaethau sy'n gwrthdaro mewn cynllun strwythur ar gyfer yr ardal honno.

**Dileu Hen Gynlluniau Datblygu**

A12. Wedi ymgynghori â'r awdurdod, gall y Cynulliad Cenedlaethol trwy orchymyn ddileu, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, hen gynllun datblygu a barhaodd mewn grym yn unol â pharagraff 1, Rhan IA, Atodlen 2, Deddf 1990.

**Dyletswydd Mewn Perthynas â Chynllun Strwythur Presennol**

A13. Wrth benderfynu ceisiadau am ganiatâd cynllunio, mae'n ddyletswydd ar yr awdurdod i geisio cyflawni amcanion cyffredinol y cynllun strwythur sydd mewn grym ar gyfer yr ardal dan sylw.

**Blaenoriaeth i Gynlluniau Datblygu Unedol dros Gynlluniau Eraill**

A14. Pan fo cynllun UDP yn rhannol weithredol (ond nid yn gyflawn weithredol - gweler A8 uchod) darpariaethau'r UDP fydd yn cael y flaenoriaeth os digwydd unrhyw wrthdaro rhyngddo ac unrhyw gynllun strwythur, cynllun lleol neu gynllun mwynau lleol, gan gynnwys unrhyw gynllun o'r fath a gwblhawyd ar ôl 1 Ebrill 1996 yn unol â'r darpariaethau trosiannol.

**Malltod Cynllunio**

A15. Bydd angen i'r awdurdodau roi sylw gofalus i Atodlen 13 Deddf 1990 fel y'i newidiwyd gan Ddeddf 1994 er mwyn canfod pa gynigion cynllun datblygu, mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 1996, a allai barhau i achosi malltod ar dir o fewn eu hardaloedd, a beth fydd y canlyniadau o ran malltod cynllunio, os parheir y gwaith o baratoi cynlluniau datblygu a oedd ar droed cyn 1 Ebrill 1996, yn unol â'r darpariaethau trosiannol. Unwaith y bydd yr awdurdod wedi cyhoeddi, o dan Adran 13 (2) Deddf 1990, gynllun UDP drafft y mae yn cynnig ei fabwysiadu, bydd hyn yn cychwyn y darpariaethau malltod cynllunio. Bydd cyhoeddi cynigion i ddiwygio cynllun UDP, neu ei ddisodli ag un newydd, yn cael yr un effaith.

**Darpariaethau Eraill**

A16. Hwyrach y bydd angen rhoi sylw i'r darpariaethau eraill yn Atodlen 5, Deddf 1994, e.e. y rhai sy'n ymwneud â digolledu.

**ATODIAD B**

**CYNGOREDIGION AR GYFER CYNLLUNIAU DATBLYGU UNEDOL**

B1. Mae'r paragraffau 4.8 i 4.10 yn cynnwys cyngor yngln ag ymgynghori cyn adneuo. Dylai'r awdurdod benderfynu â phwy y dylai ymgynghori yn ychwanegol at y cyngoredigion statudol, yn y cyfnod cyn adneuo'r cynllun. Rhaid anfon copïau o gynigion y cynllun hefyd at y

cyngoredigion statudol pan adneuir y cynllun.

B2. Dylai'r awdurdod ymgynghori ag adrannau'r Llywodraeth, cyrff cenedlaethol a chyrff eraill, pan fo'n ymddangos bod agweddau ar y cynllun, neu gynigion i ddiwygio neu amnewid y cynllun, yn effeithio ar eu buddiannau.

B3. Mae'r **Cynulliad Cenedlaethol** yn gyfrifol am **amrediad eang o faterion polisi, gan gynnwys amaethyddiaeth, adeiladau hanesyddol, yr amgylchedd, tai, trafnidiaeth, diwydiant, addysg ac iechyd**. **Isadran Gynllunio**'r Cynulliad fydd yn cyd-drefnu'r ymgynghori o fewn y Cynulliad. Dylai'r awdurdodau ymgynghori â’r Isadran Gynllunio yn gynnar yn y broses o baratoi'r cynllun.

B4 Dylid ymgynghori gydag **Adrannau'r Llywodraeth** ynghylch y meysydd polisi a nodir isod:

| | |
|---|---|
| **Y Weinyddiaeth Amddiffyn** | Materion sy'n debygol o effeithio ar ddaliadau tir a gosodiadau'r Weinyddiaeth, neu pan ystyrir gwarediadau helaeth o dir y Weinyddiaeth Amddiffyn |
| **Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi** | Datblygiadau yng nghyffiniau sefydliadau cosbi |
| **Y Swyddfa Gartref** | Materion amddiffyn sifil |

B5. Dylid ymgynghori ag asiantaethau a chyrff eraill ar y materion a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Gweithredwyr Meysydd Awyr** | Polisïau a chynigion yngln â materion hedfan, materion yng nghyffiniau pyrth awyr, neu a fyddai'n effeithio ar seilwaith neu weithrediadau porth awyr. |
| **Dyfrffyrdd Prydain, perchnogion camlesi ac awdurdodau mordwyo** | Pob mater trafnidiaeth, hamdden, twristiaeth a threftadaeth sy'n ymwneud â dyfrffyrdd mewndirol, a thir sy'n ffinio ar ddyfrffyrdd mewndirol. |
| **Yr Awdurdod Glo** | Materion yn effeithio ar ardaloedd maes glo. |
| **Siambrau Masnach, canghennau lleol Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI) a Sefydliad y Cyfarwyddwyr** | Materion yngln â thir datblygu economaidd, busnes, a chyflogaeth. |
| **Yr Awdurdod Hedfan Sifil** | Polisïau ar gyfer ardaloedd yng nghyffiniau pyrth awyr |

| | |
|---|---|
| **Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol** | Cynigion sy'n debygol o fod ag arwyddocâd i leiafrifoedd ethnig. |
| **Cyngor Cefn Gwlad Cymru** | Dylid ymgynghori ag ef yngln â phob cynllun UDP. |
| **Swyddfa Stad y Goron** | Cynigion sy'n effeithio ar unrhyw un o Stadau'r Goron. |
| **Anabledd Cymru** | Pob cynnig sy'n debygol o fod ag arwyddocâd arbennig i bobl anabl |
| **Grwpiau amgylcheddol cenedlaethol a rhanbarthol,** | Materion amgylcheddol sydd yn y cynllun a'u perthynas â pholisïau a chynigion eraill. |
| **Cwmnïau Trydan, Nwy a Thelathrebu a Chwmni'r Grid Cenedlaethol** | Unrhyw gynigion sy'n debygol o fod â goblygiadau seilwaith o bwys. |
| **Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru** | Dylid ymgynghori â hi yngln â phob cynllun UDP. |
| **Yr Asiantaeth Gwasanaethau Amgylcheddol (Gwastraff)** | Materion sy'n ymwneud â gwaredu gwastraff. |
| **Y Comisiwn Cyfleoedd Cyfartal** | Pob cynnig sy'n debygol o fod â goblygiadau cyfleoedd cyfartal. |
| **Gwasanaeth Tân ac Achub** | Materion diogelwch cyhoeddus. |
| **Comisiwn Coedwigaeth Cymru** | Pan fo coedwigaeth yn nodwedd o'r cynllunio strategol, naill ai fel diwydiant, nodwedd amgylcheddol neu adnodd hamdden. |
| **Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)** | Pob mater o bwys mewn perthynas ag iechyd a diogelwch, gan gynnwys datblygu mewn neu gerllaw gosodiadau peryglus:<br><br>1. a hysbyswyd i'r HSE yn unol â *Rheoliadau Hysbysu Gosodiadau sy'n Trin Sylweddau Peryglus 1992*; neu<br>2. y rhoddwyd caniatâd sylweddau peryglus iddo yn unol â *Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990*; neu<br>3. y mae rheoliadau 6-12 yn *Rheoliadau Perygl Damwain Ddiwydiannol Fawr 1984* yn berthnasol iddynt; neu<br>4. y mae rheoliadau 19-27 yn *Rheoliadau diogelwch Piblinellau 1996* yn berthnasol iddynt; neu<br>5. y mae amod 8 yn amodau safonol y |

| | |
|---|---|
| | *Trwyddedau Cludwyr Nwy Cyhoeddus* (a bennwyd yn unol â Deddfau Nwy 1986 q 1995) yn berthnasol iddynt; neu<br>6. safleoedd y cafodd yr HSE wybodaeth amdanynt yn unol â rheoliad 26(4) yn y *Rheoliadau Pelydriadau Ïoneiddiol 1985*; neu<br>7. unrhyw safle niwclear drwyddedig; neu<br>8. unrhyw ffatri, arfdy neu ardal mewn harbwr a drwyddedwyd i drin ffrwydron |
| **Ffederasiwn yr Adeiladwyr Tai** | Materion yn ymwneud â'r ddarpariaeth mewn cynlluniau ar gyfer tai |
| **Grwpiau Cymunedol Lleol, a grwpiau cadwraeth a mwynderau, gan gynnwys Grwpiau Agenda 21 a Chymdeithasau Dinesig** | Dylid ymgynghori â hwy yngln â phob cynllun UDP. |
| **Awdurdodau Cynllunio Lleol** | Dylai awdurdod ymgynghori yngln â'i gynllun UDP, gyda'r awdurdodau cynllunio lleol cyffiniol (yng Nghymru neu Loegr). |
| **Gweithredwyr Cludiant Lleol a Chymdeithasau Cludwyr Nwyddau** | Pob cynnig mewn perthynas â chludiant yn gyffredinol, a mesurau sy'n debygol o gynyddu'r defnydd o'r rheilffyrdd, bysiau a gwasanaethau cludiant cyhoeddus eraill. Dylai'r awdurdodau lleol ystyried hefyd a oes angen ymgynghori â chyrff sy'n amddiffyn buddiannau teithwyr rheilffordd a chludiant cyhoeddus (e.e. y Pwyllgorau Ymgynghorol Defnyddwyr Trafnidiaeth) |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meysydd Chwarae** | Materion yn ymwneud â mannau agored ac adloniant |
| **Swyddogion Cyswllt Pensaernïol yr Heddlu** | Dylid ymgynghori â hwy ar bob cynllun UDP er mwyn sicrhau y caiff materion trosedd ac anrhefn eu hystyried. |
| **Daliadau Eiddo Swyddfa'r Post** | Cynigion sy'n effeithio ar Swyddfa'r Post a gwasanaethau neu ddaliadau tir perthynol eraill. Er enghraifft, aneddiadau newydd neu ddatblygiadau preswyl mawr, datblygiadau yng nghanol trefi, gwasanaethau cymunedol, cynlluniau cerddwyr, neu unrhyw ddatblygiadau eraill sy'n debygol o effeithio'n sylweddol ar swmp y post sydd i'w gasglu neu i'w ddosbarthu o fewn ardal, neu ar effeithlonrwydd cludo'r post ar y ffyrdd. |

| | |
|---|---|
| **Y Gymdeithas Cynnyrch Chwareli** | Materion sy’n gysylltiedig â chloddio am fwynau. |
| **Cwmnïau Rheilffyrdd a'r**<br><br>**Grp Cludiant Rheilffordd** | Cynigion am ddatblygiadau mawr, sy'n debygol o achosi cynnydd yn y galw am wasanaethau rheilffordd. Polisïau trafnidiaeth mewn cynlluniau sy'n ymwneud â gwasanaethau rheilffordd, ar gyfer teithwyr neu nwyddau. |
| **Railtrack ccc** | Pob cynnig yngln â thrafnidiaeth yn gyffredinol; ac yn benodol y rhai sydd â pherthynas â gweithredu'r rheilffyrdd. Cynigion am ddatblygiadau mawr, a fyddai'n achosi cynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau rheilffordd. |
| **Cyngor Chwaraeon Cymru** | Materion yn ymwneud â chwaraeon ac adloniant corfforol yn gyffredinol |
| **Awdurdod Rheilffyrdd Strategol** | Materion mewn perthynas â datblygu'r rhwydwaith rheilffyrdd. |
| **Cynghorau Tref a Chymuned** | Dylid ymgynghori â hwy yngln â phob cynllun UDP. |
| **Cynghorau Hyfforddi a Menter (CHM)** | Materion datblygu economaidd, busnes a chyflogaeth. |
| **Bwrdd Croeso Cymru** | Materion yn ymwneud â thwristiaeth yn gyffredinol. |
| **Cwmnïau Dr** | Pob mater yn ymwneud â gwasanaethau dr a charthffosiaeth, a darparu gwasanaethau o'r fath i ddatblygiadau newydd. |
| **Awdurdod Datblygu Cymru (WDA)** | Dylid ymgynghori â hwy yngln â phob cynllun UDP. |
| **Bwrdd yr Iaith Gymraeg** | Goblygiadau polisïau a chynigion i anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg. |

**ATODIAD C**

**CANLLAWIAU PELLACH AR WEITHDREFNAU AC YMARFER GORAU**

1. *Cynlluniau Datblygu Unedol - Arweiniad i'r Gweithdrefnau*, Cynulliad Cenedlaethol, 2000 (sy'n cynnwys y Cod Ymarfer Cynlluniau Datblygu Unedol)

2. *Development Plans – A Good Practice* Guide, Adran yr Amgylchedd, Gwasg ei Mawrhydi, 1992

3. *Development Plan Inquiries* – Canllawiau i Awdurdodau cynllunio Lleol gan y Gyfarwyddiaeth Gynllunio, 1997

4. *Better Local Plans – A Guide to Writing Effective Policies* Cymdeithas y Swyddogion Cynllunio (POS), 1997

5. *Planning and Development Briefs: A Guide to Better Practice*, Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau (DETR), 1998

6. *Planning for Sustainable Development: Towards Better Practice*, DETR, 1998

7. *Proposals for a Good Practice Guide on Sustainability Appraisal of Regional Planning Guidance*, DETR, 1999

8. *Canllawiau ar Gynlluniau Cludiant Lleol yng Nghymru*, Cynulliad Cenedlaethol, 1999